

Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Memorandwm Esboniadol
yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Mai 2013

Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Memorandwm Esboniadol i Fil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru).

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Mick Antoniw AC a chaiff ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Rhagfyr 2012, ac rydym bellach yn gosod Memorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), a gyflwynir gennyf ar 3 Rhagfyr 2012, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mick Antoniw AC

Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil
24 Mai 2013

CYNNWYS

Rhan 1	1
1. Disgrifiad	1
2. Cefndir Deddfwriaethol.....	2
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	5
4. Ymgynghoriad.....	12
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	15
RHAN 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	20
6. Opsiynau.....	20
7. Amcangyfrif o gostau a manteision	22
8. Asesu'r Gystadleuaeth	48
9. Adolygu Ar ôl Gweithredu	49
Atodiad A – Nodiadau Esboniadol	50
Atodiad B - Ymgylgoreion	59

Rhan 1

1. Disgrifiad

1. Nod y Bil yw galluogi Gweinidogion Cymru i adennill oddi wrth ddigolledwr (sef person sy'n gwneud taliadau digolledu neu sy'n eu gwneud ar ei ran, i neu ar gyfer dioddefwr clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos), gostau penodol sy'n dod i ran y GIG yng Nghymru wrth ddarparu gofal a thriniaeth ar gyfer dioddefwr y clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos.

2. Cefndir Deddfwriaethol

2. Ar 21 Mawrth 2012, roedd Mick Antoniw AC yn llwyddiannus yn y balot a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 26.87 am yr hawl i ofyn am ganiatâd i gyflwyno Bil Aelod. Roedd ei gynnig yn ymwneud ag adennill costau am driniaeth a gofal meddygol a ddarperir i gleifion yng Nghymru sydd wedi cael clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos (mesothelioma, tewhau plewrol, canser yr ysgyfaint a chlefydau cysylltiedig eraill) ac sydd wedi cael eu digolledu yn dilyn setliad, dyfarniad llys neu gytundeb oddi wrth gyflogwr neu gorff arall, corfforedig neu anghorfforedig. Ar 16 Mai 2012, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y gallai Mick Antoniw AC gyflwyno Bil a fyddai'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparodd cyn y balot.
3. Cyflwynwyd y Bil ar 3 Rhagfyr 2012. Ar 19 Mawrth 2013, pleidleisiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a chytunwyd y dylai'r Bil fynd ymlaen i Gam 2: Craffu. Aeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ati i gynnal Cam 2: Craffu a phleidleisio ar welliannau posibl i'r Bil ar 24 Ebrill 2013. Nododd y Pwyllgor y dylid cyflwyno Memorandwm Esboniadol diwygiedig cyn Cam 3 yn unol â Rheol Sefydlog 26.27.
4. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn caniatáu i Aelodau Cynulliad unigol yn ogystal â Llywodraeth Cymru gyflwyno Biliau mewn meysydd polisi sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
5. Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol sy'n galluogi'r Cynulliad i lunio Deddf yn ymwneud ag adennill costau oddi wrth y digolledwr am ddarparu gwasanaethau'r GIG ar gyfer cleifion sydd wedi cael clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos yn deillio o bennawd pwnc 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd) Rhan 1 Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cynnwys yn benodol atal, trin a lleddfu clefyd, salwch, anaf, anabledd ac anhwylder meddyliol; a threfnu ac ariannu'r gwasanaeth iechyd gwladol.
6. Mae'r Bil yn ymwneud ag adennill costau gofal a thriniaeth a ariennir gan y GIG, ac at hynny, mae'r cynnig yn berthnasol i "drefnu ac ariannu'r gwasanaeth iechyd gwladol". Mae diben y Bil hefyd yn berthnasol i "drin clefyd, salwch" o dan bennawd y pwnc hwn. Er mai taliad digolledu sy'n sbarduno'r broses o adennill costau, nid yw'r Bil yn creu unrhyw atebolrwydd newydd, neu'n effeithio ar yr atebolrwydd sydd eisoes yn bodoli, i dalu iawndal i ddioddefwyr sydd wedi dod i gysylltiad ag asbestos.

Perthynas â deddfwriaeth bresennol

7. Yr egwyddor sydd wrth wraidd y Bil yw y dylai'r gost i bwrs y wlad o ddarparu gwasanaethau'r GIG gael ei hadennill oddi wrth y sawl sydd wedi achosi (neu yr honnir iddo achosi) y niwed a arweiodd at yr angen am y gwasanaethau hynny. Yn ôl Deddf Traffig Ffyrdd (Ffioedd y GIG) 1999¹ ("Deddf 1999"), pan fo person wedi cael taliad digolledu am anaf (gan gynnwys anaf marwol) a achoswyd mewn damwain traffig ar y ffordd mae'r person hwnnw'n atebol am daliad i'r Ysgrifennydd Gwladol am y gost o ddarparu triniaeth ysbyty'r GIG ar gyfer y dioddefwr. Pennwyd y swm y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei adennill mewn tystysgrif ffioedd y GIG a gyflwynir i'r sawl sy'n gwneud y taliad digolledu. Pennwyd y dull cyfrifo mewn rheoliadau, a throsglwyddwyd yr atebolrwydd i dalu costau triniaeth i yswirwyr.
8. Ehangodd Senedd y DU y cynllun hwn yn 2003 trwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003² ("Deddf 2003"). Mae Rhan 3 o Ddeddf 2003 wedi ehangu'r hawl i adennill ffioedd y GIG i gynnwys anafiadau o *bob* math, nid damweiniau traffig ar y ffordd yn unig, ac i gynnwys y gost o ddarparu gwasanaethau ambiwlans yn ogystal â thriniaeth ysbyty.
9. Mae Adran 150 o Ddeddf 2003 yn gymwys mewn perthynas â rhywun sy'n gwneud taliad digolledu i berson sydd wedi'i anafu lle mae'r person sydd wedi'i anafu wedi derbyn neu y darparwyd triniaeth y GIG a/neu wasanaethau ambiwlans ar ei gyfer o ganlyniad i'w anaf. Mewn achosion o'r fath, mae'r person sy'n gwneud y taliad digolledu yn atebol am dalu i'r Ysgrifennydd Gwladol neu i Weinidogion yr Alban y ffioedd GIG perthnasol yn ymwneud â'r driniaeth ysbyty a dderbyniodd y person a anafwyd a/neu'r gwasanaethau ambiwlans a ddarparwyd ar ei gyfer (adran 150(10)).
10. Mae gweithdrefnau Deddf 2003 yn debyg i'r rhai a sefydlwyd gan Ddeddf 1999. Mae tystysgrif ffioedd y GIG yn pennu'r swm y gellir ei adennill, ac mae adrannau 151 i 153 o Ddeddf 2003 yn gwneud darpariaethau manwl ar gyfer hyn. Eto, cyfrifir y swm a nodir ar y dystysgrif yn unol â'r rheoliadau (adran 153(2) a (10)). Yn ôl Adran 160 o Ddeddf 2003, mae'r rheoliadau yn darparu ar gyfer cyflwyno gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion yr Alban i'w galluogi i nodi achosion ble mae angen cyhoeddi tystysgrif, gan nodi i bwy ac am ba swm. Mae modd defnyddio gwybodaeth a gedwir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adennill budd-daliadau nawdd cymdeithasol at y diben hwn hefyd (adran 161). Ceir darpariaethau ar gyfer adolygu ac apelio yn erbyn tystysgrifau, gydag apeliadau i'w hatgyfeirio i dribiwnlys annibynnol (adrannau 156 i 158).

¹ 1999 (c.3)

² 2003 (c.43)

11. Mae Deddf 2003 yn cynnwys darpariaethau amrywiol i orfodi'r atebolrwydd i dalu ffioedd GIG y gellir eu hadennill, os yw'r digolledwr heb wneud y taliadau. Mae'r swm ardystiedig yn daladwy o fewn 14 diwrnod fel arfer (adran 154) a gellir ei adennill mewn achos sifil mewn llys sirol yng Nghymru a Lloegr, neu lys Siryf yn yr Alban (adran 155). Yn ôl adran 164, mae yswiriwr sy'n atebol am yr anaf o dan ei bolisi yswiriant hefyd yn atebol, o dan y polisi hwnnw, am ffioedd y GIG y gellir eu hadennill. Ni ellir eithrio'r atebolrwydd hwnnw am ffioedd y GIG y gellir eu hadennill, ond mae'r rheoliadau yn gallu cyfyngu ar y swm.
12. Mae Deddf 2003 hefyd yn darparu ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion yr Alban i drosglwyddo'r symiau a gafodd eu hadennill o dan y Ddeddf (adran 162) i'r corff sy'n gyfrifol am ysbyty perthnasol y GIG neu'r ymddiriedolaeth ambiwlans berthnasol. Mae adran 163 yn galluogi gwneud rheoliadau ar gyfer taliadau digolledu ar ffurf cyfandaliadau lluosog, taliadau cyfnodol, taliadau interim a thaliadau i mewn i lys. Mae adran 165 yn galluogi i reoliadau gael eu gwneud er mwyn ehangu'r cynllun adennill costau i gynnwys triniaeth y GIG mewn rhai ysbytai nad ydynt yn eiddo i'r GIG. Mae Atodlen 10 yn eithrio rhai categorïau penodol o daliadau digolledu rhag achosi atebolrwydd i dalu ffioedd y GIG. Mae'r rhain yn cynnwys gorchmynion digolledu yn erbyn personau sydd wedi'u collfarnu a thaliadau sy'n ymwneud â threfniadau ymddiriedolaethau neu yswiriant personol.
13. Mae'r costau y gellir eu hadennill o dan adran 150 o Ddeddf 2003 yn cael eu cyfyngu i gostau sy'n ymwneud â thrin ac ati unrhyw *anaf* (ac eithrio unrhyw glefyd annibynnol yn y cyd-destun hwn).

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cefndir

14. Grŵp o fwynau sy'n bodoli'n naturiol fel bwndeli o ffibrau yw asbestos (glas, brown a gwyn). Mae'r ffibrau hyn i'w canfod mewn pridd a chreigiau mewn sawl rhan o'r byd, ac maent yn cynnwys silicon, ocsigen ac elfennau eraill. Mae gan y ffibrau gryfder tynnol sylweddol sy'n gallu cael ei wehyddu, ac maent yn gallu gwrthsefyll gwres a'r rhan fwyaf o gemegau. Defnyddiwyd asbestos am y tro cyntaf mor bell yn ôl â 2500 C.C. a daeth yn boblogaidd iawn yn ystod y Chwyldro Diwydiannol tua diwedd y 1800au.
15. Oherwydd eu priodweddau, defnyddiwyd ffibrau asbestos yn eang yn y DU gydol y 1900au, ac fe'u defnyddiwyd ar gyfer amrywiaeth eang o weithgynhyrchion, gan gynnwys deunyddiau gwrthdan ac inswleiddio. Cafodd y defnydd o asbestos glas a brown ei wahardd yn y DU ym 1985, ac fe gafwyd gwaharddiad llawn ar ddefnyddio nwyddau asbestos yn sgil gwahardd asbestos gwyn yn y DU ym 1999. Mae'n bosibl y bydd unrhyw adeilad a godwyd cyn 2000 (tai, ffatrioedd, swyddfeydd, ysgolion, ysbytai ac ati) yn cynnwys asbestos.
16. Mae deunyddiau asbestos mewn cyflwr da yn ddiogel oni bai bod ffibrau asbestos yn cael eu rhyddhau i'r awyr, sy'n digwydd pan fydd deunyddiau yn cael eu difrodi. Mae anadlu'r ffibrau hyn i mewn yn gallu achosi clefydau difrifol sy'n gyfrifol am tua 4,500 o farwolaethau bob blwyddyn yn y DU.³
17. Mae dod i gysylltiad ag asbestos yn gallu achosi pedwar prif glefyd:
 - (i) Mesothelioma - canser leinin yr ysgyfaint; mae'n arwain at farwolaeth bob amser, a chysylltiad ag asbestos sy'n ei achosi bron yn ddieithriad;
 - (ii) Canser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos - sy'n arwain at farwolaeth bron bob amser;
 - (iii) Asbestosis - creithiau ar feinwe'r ysgyfaint. Nid yw'n arwain at farwolaeth bob amser ond mae'n gallu bod yn glefyd gwanychol iawn sy'n cael effaith fawr ar ansawdd bywyd;
 - (iv) Clefyd plewrol anfalaen - cyflwr nad yw'n ganseraidd sy'n effeithio ar leinin allanol yr ysgyfaint (pilenni'r ysgyfaint). Mae'n cynnwys

³ Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

tewhau plewrol sy'n gallu achosi anabledd a gall achosi placiau plewrol, cyflwr nad yw'n achosi anabledd fel rheol. Mae'r ddau gyflwr yn gysylltiedig â phryder a chynnydd sylweddol yn y risg o ddatblygu clefyd asbestos malaen marwol.⁴

18. Mae'n gallu cymryd rhwng 10 a 60 o flynyddoedd i ddatblygu symptomau ar ôl dod i gysylltiad ag asbestos.

Nifer yr achosion

19. Mae marwolaethau yn sgil mesothelioma yn y DU yn parhau i gynyddu, a'r marwolaethau sy'n digwydd nawr oherwydd cysylltiad yn y gorffennol ag asbestos pan oedd yn cael ei ddefnyddio'n eang. Y cyfnod cuddni ar gyfer mesothelioma yw rhwng 30 a 40 o flynyddoedd ar gyfartaledd, ond gall gymryd 50 mlynedd neu fwy ers y cysylltiad hysbys olaf ag asbestos cyn y daw'r symptomau i'r amlwg.
20. Yn ôl ffigurau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cynyddodd marwolaethau yn sgil mesothelioma yn y DU o 153 ym 1968 i 2,347 yn 2010.⁵ Amcangyfrifir bod tua 90 o bobl yn marw o ganlyniad i fesothelioma yng Nghymru bob blwyddyn (seiliedig ar ddata Cyfraddau Marwolaethau Safonol ar gyfer achosion mesothelioma)⁶. Amcangyfrifir bod y gofal a ddarperir ar gyfer yr achosion hyn yn unig yn costio dros £1.6 miliwn i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn.⁷ Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yn parhau i gynyddu yn y DU, gan gyrraedd penllanw rhwng 2016⁸ a 2010⁹.
21. Mae'n anodd pennu graddfa gyffredinol marwolaethau canser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos oherwydd bod diagnosis o'r mathau hyn o ganser ar sail cysylltiad ag asbestos yn hytrach nag achosion eraill fel ysmegu. Fodd bynnag, amcangyfrifir bod cynifer o bobl yn marw o ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos bob blwyddyn ag sy'n marw yn sgil mesothelioma. Yn ogystal, ceir cannoedd o achosion o asbestosis ac achosion o glefyd plewrol anfalaen bob blwyddyn¹⁰.

Atebolrwydd cyfreithiol i'r clefyd

⁴ Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

⁵ Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

⁶ Gwaith ymchwil Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru 2012

⁷ Gwaith ymchwil Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru 2012 ac ymchwil ychwanegol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru

⁸ Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

⁹ Trends in Incidence of Mesothelioma and Evaluation of Exposure to Asbestos, Richard Wilson, Prifysgol Harvard, 2001

¹⁰ Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

22. Bu peryglon asbestos yn hysbys ers ymhell dros ganrif, ac mae nifer o reoliadau a Deddfau wedi dod i rym er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad ag asbestos.
23. Roedd Rheoliadau'r Diwydiant Asbestos 1931 ("rheoliadau 1931") yn cwmpasu'r prif brosesau gweithgynhyrchu asbestos, a'u bwriad oedd amddiffyn gweithwyr rhag yr achosion gwaethaf o fod yn agored i asbestos. Fodd bynnag, rheoliadau ar gyfer diwydiant yn unig oedd y rhain - nid oeddent yn berthnasol y tu allan i'r diwydiant asbestos. O ganlyniad, parhaodd y cyfnod pan oedd gweithwyr inswleiddio, plymwyr, gwneuthurwyr boeleri, gweithwyr iardiau llongau ac eraill yn agored i asbestos.
24. Dirymwyd rheoliadau 1931 gan Reoliadau Asbestos 1969 ("rheoliadau 1969") ac am y tro cyntaf, pennwyd lefelau rheoli meintiol ar gyfer cysylltiad ag asbestos yn y gweithle. Aeth rheoliadau 1969 ymhellach na'r ddyletswydd statudol a osodwyd ar gyflogwyr gan reoliadau 1931, a sicrhodd fod pob aelod o staff mewn ffatrioedd, pwerdai, stordai, sefydliadau a safleoedd eraill yn cael eu diogelu rhag y peryglon o weithio gydag asbestos. Roedd rheoliadau 1969 yn cwmpasu pob proses a oedd yn defnyddio asbestos neu unrhyw ddeunydd a oedd yn cynnwys asbestos, a'u nod oedd sicrhau'r cysylltiad lleiaf posibl â llwch asbestos.
25. Roedd Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr drefnu eu dulliau gwaith fel na fyddai eu gweithwyr cyflogedig yn agored i beryglon iechyd a diogelwch. Roedd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth i bobl eraill am eu gweithle a allai effeithio ar eu hiechyd a diogelwch.
26. Cyflwynodd Rheoliadau Rheoli Asbestos yn y Gwaith 1987 weithdrefnau rheoli statudol i atal gweithwyr rhag dod i gysylltiad ag asbestos yn y gweithle, ac roeddent yn cwmpasu pob math o waith a oedd yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag asbestos.
27. Diweddarwyd ac ehangwyd llawer o'r rheoliadau blaenorol gan Reoliadau Rheoli Asbestos yn y Gwaith 2002, a chyflwynodd y rheoliadau newidiadau amrywiol hefyd, gan gynnwys dyletswydd benodol i reoli asbestos ar bob safle annomestig.
28. Llwyddodd Rheoliadau Rheoli Asbestos 2006 ("rheoliadau 2006") i greu un set o reoliadau asbestos trwy gyfuno Rheoliadau Rheoli Asbestos yn y Gwaith 2002; Rheoliadau Asbestos (Trwyddedu) 1983; a Rheoliadau Asbestos (Gwaharddiadau) 1992 (a'u holl ddiwygiadau perthnasol). Roedd rheoliadau 2006 yn cwmpasu'r canlynol: gweithio gydag asbestos, gwahardd mewnforio, cyflenwi a defnyddio asbestos, a thrwyddedu gweithgareddau symud asbestos.

29. Daeth Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012 i rym ym mis Ebrill 2012, gan ddiweddarau'r rheoliadau blaenorol a oedd yn ymwneud ag asbestos er mwyn ystyried barn y Comisiwn Ewropeaidd nad oedd y DU wedi gweithredu'n llawn Gyfarwyddeb yr UE ar gysylltiad ag asbestos (Cyfarwyddeb 2009/148/CE).
30. Mewn llawer o achosion pan geir diagnosis o glefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos, mae modd sefydlu bod achos o esgeulustra a bod deddfau iechyd a diogelwch wedi eu torri drwy gael cymorth cyfreithiol arbenigol, yn enwedig cymorth cyfreithwyr undebau llafur a gall dioddefwyr clefydau asbestos a'u teuluoedd ddwyn achos sifil am iawndal. Gall yr achosion hyn arwain at ddyfarniadau llys yn erbyn cyn-gyflogwyr ac yswirwyr, neu setliad y tu allan i'r llys, gyda neu heb addefiad atebolrwydd.
31. Mae'r gost o drin clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos yn gosod baich ariannol sylweddol ar y GIG yng Nghymru, sef o leiaf £1.6 miliwn y flwyddyn ar sail amcangyfrifon cyfredol o gyfraddau marwolaethau safonol a data costau enghreifftiol ar gyfer mesothelioma yn unig. Yn dilyn diagnosis o'r clefyd, gall llwybr gofal arferol gynnwys apwyntiadau â meddyg teulu, atgyfeiriadau at ymgynghorwyr ar gyfer radiolog, biopsi, radiotherapi, cemotherapi, llawdriniaeth, ac mewn rhai achosion, gofal lliniarol yn y pen draw.
32. Mae'r Bil yng Nghymru yn ehangu'r egwyddor sy'n sylfaen i'r cynllun o dan Ddeddf 2003, fod y rhai sy'n gyfrifol am achosi niwed, neu yr honnir eu bod yn gyfrifol am achosi niwed, hefyd yn talu am gost y driniaeth. Er bod adran 150 o Ddeddf 2003 yn cyfyngu ar y ffioedd y gellir eu hadennill i gostau sy'n ymwneud â thriniaeth ac ati unrhyw *anaf* (ac eithrio unrhyw glefyd annibynnol yn y cyd-destun hwn¹¹), mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i adennill costau gofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru ar gyfer clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos. Mae disgrifiad manwl o strwythur a chynnwys y Bil wedi'i gynnwys yn y Nodiadau Esboniadol (gweler Atodiad A).
33. Mewn achosion lle mae taliad digolledu yn cael ei wneud i ddioddefwr clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos, bydd y Bil hefyd yn sicrhau bod y digolledwr yn talu am gostau gofal a thriniaeth feddygol benodol y mae'r GIG yng Nghymru yn talu amdanynt neu'n eu darparu. Mae hyn yn debyg mewn egwyddor i ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli sy'n galluogi adennill budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau mewn achosion o anafiadau personol (o dan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Adennill Budd-daliadau) 1997) a chostau meddygol y GIG mewn achosion o anafiadau (o dan Ddeddf 2003). Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y digolledwr wedi'i yswirio o dan bolisi atebolrwydd neu atebolrwydd cyhoeddus cyflogwr. Mae hynny'n golygu bod y dioddefwr yn gallu adennill iawndal o dan y polisi yswiriant hwnnw hyd yn oed os

¹¹ Gweler adran 150(5) o Ddeddf 2003

nad yw'r cyflogwr neu'r parti arall yn masnachu bellach. Fel y nodwyd uchod, o dan Ddeddf 2003 mae modd casglu ffioedd y GIG y mae modd eu hadennill o dan y polisi yswiriant. Mae'r Bil yn cynnig darpariaeth debyg.

Gweinyddiaeth

34. Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru brofiad helaeth o adennill costau oddi wrth unigolion a thrydydd partiön, nid yn unig ar sail deddfwriaeth yn ymwneud â hawliadau anafiadau personol fel y nodir uchod, ond hefyd mewn perthynas â thrin cleifion nad ydynt yn preswyllo yn y DU fel arfer. Maent hefyd yn adennill costau oddi wrth gleifion preifat sy'n cael eu trin gan y GIG.
35. Mae'r cynllun arfaethedig yn perthyn yn fras i gylch gwaith y cynllun digolledu am anafiadau personol sy'n gweithredu o dan Ddeddf 2003. Sefydlwyd y cynllun hwn yn unol â'r egwyddor sylfaenol y dylai'r rhai sy'n gyfrifol am achosi niwed i eraill dalu am driniaeth y GIG sy'n deillio o hynny. Mae'n berthnasol i achosion lle mae iawndal am anaf personol yn cael ei adennill oddi wrth gyflogwyr/yswirwyr y trydydd parti.
36. Mae'r cynllun presennol yn cael ei weithredu ledled y DU (ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon ble mae cynllun tebyg ar waith) ac mae'n cael ei gydgyssylltu gan yr Uned Adfer Iawndal (CRU) sy'n rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae Deddf 2003 yn rhoi dyletswydd ar yswirwyr a chyfreithwyr i hysbysu'r CRU am unrhyw hawliadau digolledu am anafiadau personol sydd ar waith, gan gynnwys a wnaeth y person a anafwyd fynychu ysbyty, a gofyn am dystysgrif ffioedd y GIG yn dilyn dyfarniad yr achos drwy ddyfarniad llys, setliad neu gytundeb. Hysbysir corff iechyd perthnasol y GIG am yr achos ac mae'n gyfrifol wedyn am gofnodi manylion y gwasanaeth a ddarperir o ran mynychu apwyntiadau cleifion allanol, hyd arhosiad cleifion mewnol ac unrhyw daith mewn ambiwlans. Ar ôl derbyn y wybodaeth hon, mae'r CRU yn cyfrifo'r gost drwy ddefnyddio tariff dyddiol syml ar gyfer arosiadau cleifion mewnol (neu ofal cleifion allanol os nad oedd angen gofal mewnol) yn ogystal ag unrhyw daith mewn ambiwlans. Mae'r CRU yn cydweithio â'r yswirwyr i adennill y costau, sy'n cael eu talu wedyn i'r sefydliad iechyd, gan olygu buddsoddiadau pellach yn y gwasanaethau gofal iechyd. Y CRU sy'n mynd i'r afael ag unrhyw anghydfod ag yswirwyr i ddechrau, ac mae system apêl ar gael drwy driwlynlys annibynnol.
37. Bu'r cynllun yn llwyddiannus iawn (gan adennill tua £13.5 miliwn yng Nghymru yn 2011-12) yn bennaf oherwydd gwaith y CRU o gydgyssylltu â'r yswirwyr; am fod y claf a'r driniaeth a ddarparwyd yn cael eu nodi'n glir; am fod y tariff yn syml, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac am fod y GIG yn cael cadw'r arian sy'n cael ei adennill yn llawn. Mae defnyddio'r cynllun hwn ar gyfer y trefniant arfaethedig yn achos asbestos yn ddeniadol ar sawl ystyr, yn bennaf oherwydd nodweddion tebyg y

cynlluniau, gan gynnwys gorfodaeth gyfreithiol ar yr yswiriwr i hysbysu Gweinidogion Cymru am yr hawliad sydd ar y gweill ac unrhyw daliad digolledu a wnaed, ynghyd â'r ffi a godir gan y GIG am y costau cysylltiedig.

38. Fodd bynnag, mae nifer o wahaniaethau allweddol rhwng sut mae'r cynllun yn gweithio mewn achosion o anafiadau personol a sut y bydd yn gweithio o bosibl mewn achosion o glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos:
- a. Mae llwybrau clinigol cleifion sy'n dioddef o gyflyrau meddygol a achosir gan asbestos yn cynnwys triniaeth gan fwy nag un sefydliad iechyd yn aml. Mae'r cynllun cyfredol ar gyfer adennill costau am anafiadau o dan Ddeddf 2003 yn adennill costau mewn achosion sy'n ymwneud â mwy nag un darparwr gofal y GIG. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd mwy nag un sefydliad iechyd yn gysylltiedig ag achosion o glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos. Mae'n bosibl y bydd angen i sefydliadau gwahanol gydweithio'n amlach yn hyn o beth.
 - b. Mae'r cynllun ar gyfer adennill costau am anafiadau personol yn defnyddio tariff cleifion mewnol/cleifion allanol syml a safonol a ddatblygwyd i adlewyrchu costau gofal cyfartalog. Mae'n bosibl y bydd angen pecynnau triniaeth mwy cymhleth ar gyfer clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos fel arfer o gymharu â'r costau gofal cyfartalog ar gyfer anafiadau personol. Fodd bynnag, mae ymchwil a amlinellir ym mharagraffau 106-151 isod yn awgrymu y gellid defnyddio'r tariff a ddefnyddir ar gyfer y cynllun anafiadau personol presennol ar gyfer y cynllun adennill costau yn y Bil.

Sut bydd y Bil yn cyflawni ei amcan

39. Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i adennill, oddi wrth y digolledwr, gost triniaeth a gwasanaethau meddygol penodol a ddarparwyd neu a ariannwyd gan GIG Cymru ar gyfer cleifion clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos (mesothelioma, tewhau plewrol, canser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos ac asbestosis).
40. Nid yw'r Bil yn creu unrhyw hawl newydd am iawndal lle na fyddai hawl eisoes yn bodoli. Dim ond ar ôl i'r dioddefwr asbestos neu ei gynrychiolwyr personol gael setliad neu ddyfarniad yn ymwneud â chais am iawndal y gall Gweinidogion Cymru adennill cost triniaeth feddygol benodol. Fel sy'n wir am Ddeddf 2003, bydd taliad digolledu yn gweithredu fel sbardun i adennill costau, waeth a yw'r parti sy'n gwneud y taliad yn cyfaddef ei fod yn atebol ai peidio.

Defnyddio'r costau meddygol sy'n cael eu hadennill

41. Mae Deddf 2003 yn nodi y dylid trosglwyddo ffioedd y GIG a gafodd eu hadennill i'r ysbyty neu'r ymddiriedolaeth ambiwlans a ddarparodd y driniaeth neu'r gwasanaethau dan sylw (adran 162). O ystyried y symiau cymharol fychain (yng nghyd-destun cyllid y GIG) y rhagwelir y bydd y Bil yn eu hadennill, a'r bwriad i fuddsoddi'r arian a adenillir yn y gwaith o drin clefydau asbestos, neu wasanaethau'n gysylltiedig â hynny, megis ymchwil, ystyrir nad y dull hwnnw yw'r mecanwaith mwyaf effeithiol i sicrhau'r budd mwyaf o'r arian a adenillir. Yn hytrach na gwneud hynny, bydd y symiau sy'n cael eu hadennill yn dychwelyd i Weinidogion Cymru. O fewn y Cynnig Cyllidebol Blynnyddol, byddai cais yn cael ei wneud i'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ddyraniad incwm ar gyfer y costau sydd wedi'u hadennill, ac am ganiatad i'w defnyddio ar gyfer darparu gwasanaethau i ddioddefwyr asbestos a'u teuluoedd. Bydd yr adnoddau sy'n cael eu hadennill yn talu am gostau gweinyddol y cynllun a gallent ddarparu ar gyfer cyllid er budd cyffredinol dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd, gan gynnwys ymchwil, cymorth i gael gofal lliniarol a thriniaeth arall. Byddai cyllid o'r fath yn ffordd o gyfrannu at gostau'r GIG yng Nghymru yn y dyfodol.

4. Ymgynghoriad

Cefndir

42. Ym mis Mai 2012, cysylltodd Mick Antoniw AC â 31 o sefydliadau i ofyn eu barn ar egwyddorion cyffredinol y Bil a'i amcanion arfaethedig.
43. Dewiswyd y sefydliadau hyn am fod ganddynt ddiddordeb a/neu arbenigedd yng nghynnwys y Bil. Mae rhestr o'r holl sefydliadau y cysylltwyd â nhw yn Atodiad B.
44. Cafwyd 10 ymateb i'r ymgynghoriad cychwynnol a barodd 28 diwrnod. Dyma restr o'r rhai a ymatebodd:
 - Ymwybyddiaeth Asbestos a Chefnogaeth Cymru
 - Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI)
 - Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol (APIL)
 - Fforwm Grwpiau Cymorth Dioddefwyr Asbestos y DU
 - Clydeside Action on Asbestos
 - Undeb y Frigâd Dân (FBU)
 - Macmillan Cymru
 - Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth (RMT)
 - Tenovus
 - UNSAIN Cymru
45. Cafwyd tri ymateb arall maes o law gan:
 - GMB
 - Mesothelioma UK
 - Unite

Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Crynodeb

46. O'r 13 ymateb a gafwyd, roedd deuddeg sefydliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, ac un sefydliad yn eu gwrthwynebu.

Crynodeb o'r ymatebion a oedd o blaid

47. **Ymwybyddiaeth Asbestos a Chefnogaeth Cymru** – yn cefnogi egwyddor y Bil ac yn canmol y bwriad i ddefnyddio'r costau sy'n cael eu hadennill i gefnogi dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd.
48. **Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol (APIL)** – yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil ac yn dadlau o blaid egwyddor y "llygrwr sy'n talu" mewn achosion clefydau diwydiannol. Croesawodd APIL gefnogaeth drawsbleidiol y Cynulliad i egwyddor y Bil.
49. **Fforwm Grwpiau Cymorth Dioddefwyr Asbestos y DU** – yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil yn llawn. Dywedodd mai'r trethdalwr sy'n talu'r gost ar gyfer clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos yn bennaf, gan ddadlau pe bai egwyddor sylfaenol systemau digolledu fod y "llygrwr yn talu" yn cael ei gweithredu ar gyfer clefydau ac anafiadau diwydiannol a bod costau triniaeth berthnasol y GIG yn cael eu hadennill y gallai rhagor o adnoddau gael eu neilltuo ar gyfer gwaith ymchwil i fesothelioma.
50. **Clydeside Action on Asbestos** – yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil a'r cynnig y dylid defnyddio'r costau sy'n cael eu hadennill er budd dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd.
51. **Undeb y Frigâd Dân** – yn cynnig ei longyfarchiadau ar y Bil.
52. **GMB** – yn credu y dylid cysylltu'r defnydd o adnoddau GIG Cymru i drin clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos ag egwyddor y "llygrwr sy'n talu" a sefydlwyd mewn deddfwriaethau eraill. Dylai'r cyflogwyr a'u hyswirwyr sy'n gyfrifol am y cyswllt â'r asbestos, fel y profir gan gais llwyddiannus am iawndal, dalu am drin clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos yng Nghymru. Felly, byddai'r GMB yn croesawu cynigion y Bil i adennill ffioedd y GIG ar gyfer clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, gan obeithio y bydd Deddf yn cael ei phasio mor gyflym â phosibl.
53. **Macmillan Cymru** – yn credu y bydd y Bil yn cael effaith sylweddol ar bobl sy'n cael diagnosis o fesothelioma ar ôl dod i gysylltiad â ffibrau asbestos. Hoffai'r sefydliad wybod sut bydd y costau sy'n cael eu hadennill yn cael eu defnyddio er budd dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd.
54. **Mesothelioma UK** – yn cefnogi egwyddor gyffredinol y Bil Aelod Preifat arfaethedig ac yn gobeithio y bydd y costau sy'n gysylltiedig ag anghenion gofal holistaidd ehangach cleifion a'u teuluoedd yn cael eu hymgorffori yn y Bil hefyd.

55. **Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth (RMT)** – yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil; nododd fod angen cynnwys safleoedd adeiladu a chynnal a chadw cerbydau rheilffordd yn y rhestr o weithleoedd a effeithir gan glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos. Mae'r RMT yn awgrymu y dylai rhywfaint o'r arian sy'n cael ei adennill o dan y Bil fod ar gael ar gyfer gwaith ymchwil i salwch sy'n gysylltiedig ag asbestos a datblygu triniaethau newydd.
56. **Tenovus** – yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil yn llawn. Cyfeiriodd at y sefyllfa bresennol yn ymwneud â Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012 a'r oedi sy'n bodoli yn y sefyllfa bresennol wrth adennill hyd at 25% o daliadau digolledu dioddefwyr mesothelioma.
57. **UNSAIN Cymru** – yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil yn llawn a'r bwriad i ddefnyddio unrhyw gostau sy'n cael eu hadennill er budd dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd, gan gynnwys cymorth ar gyfer gofal lliniarol a thriniaethau eraill.
58. **Unite** - yn cefnogi egwyddorion y Bil ac yn credu mai cyflogwyr esgeulus neu eu hyswirwyr a ddylai dalu am y costau sy'n gysylltiedig â gwneud diagnosis a thrin cleifion sy'n dioddef o glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos.

Crynodeb o'r ymatebion yn erbyn

59. **Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI)** – nid yw'n cefnogi egwyddorion y Bil oherwydd, ym marn ABI, ni fyddai'r Bil yn cael yr effaith a fwriadwyd, sef gwella'r broses ddigolledu. Yn ôl yr ABI, effaith y Bil fyddai ad-dalu costau i'r GIG y byddai eisoes wedi derbyn arian amdanynt drwy Ffi Yswiriant Gwladol yr hawlydd. Cyfeiriodd ABI at adroddiad Comisiwn y Gyfraith 2003 ar ehangu cynlluniau adennill ffioedd y GIG i gynnwys hawliadau am ddamweiniau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod yr anfanteision ymarferol a pherthnasol o ehangu'r cynllun adennill costau i gynnwys hawliadau yn ymwneud â chlefydau yn llawer mwy na'r manteision posibl. Roedd hefyd yn cwestiynu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i basio deddfwriaeth yn y maes hwn.

5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

60. Mae Deddf 2003 yn gadael i is-ddeddfwriaeth bennu llawer o fanylion gweinyddol a thechnegol y cynllun adennill costau. Mae hynny'n cynnwys, yn benodol, y dull o gyfrifo ffioedd y gellir eu hadennill o dan adrannau 153(2) a (10); a'r wybodaeth y mae'n rhaid i categorïau o bobl wahanol (y dioddefwr, y digolledwr, yr ysbyty neu'r ymddiriedolaeth ambiwlans ac ati) ei darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion yr Alban pryd bynnag y mae person yn hawlio iawndal am anaf (adran 160). Mae hefyd yn cynnwys materion fel y dull a'r terfyn amser ar gyfer apelio yn erbyn tystysgrif o ffioedd y GIG (adran 157(7)); gwneud darpariaeth ar gyfer achosion sy'n ymwneud â digolledu drwy wneud cyfandaliadau lluosog neu daliadau cyfnodol (adran 163); cyfyngu ar faint y ffioedd y gellir eu hadennill o dan bolisi yswiriant (adran 164(4)); a chymhwysio darpariaethau'r Ddeddf, gyda rhai addasiadau, i driniaethau penodol mewn ysbytai nad ydynt yn perthyn i'r GIG (adran 165). O dan adran 150(12), gall yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion yr Alban hefyd gyflwyno rheoliadau i ddiwygio Atodlen 10 drwy ddileu neu addasu unrhyw gategori o daliad sy'n cael ei eithrio (h.y. taliadau digolledu nad ydynt yn arwain at ymrwymiad i dalu ffioedd y GIG).
61. Mae rheoliadau o dan y pŵer olaf (adran 150(12)), a'r gyfres gyntaf o reoliadau sy'n pennu'r symiau y gellir eu hadennill o dan adran 153(2), yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol. Mae pob pŵer arall (ac eithrio gorchmynion cychwyn) yn amodol ar y weithdrefn negyddol. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru hefyd cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan Ran 3. Gweler adran 195(3) a (5) i (8) o Ddeddf 2003.
62. Cymerwyd gofal i sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng darpariaeth ar wyneb y Bil a darpariaeth sydd i'w gwneud gan is-ddeddfwriaeth. Credir mai'r dull gweithredu gorau yw i'r Bil bennu egwyddorion sylfaenol, cwmpas a strwythur y cynllun adennill costau ar gyfer clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, gan adael manylion technegol y gwaith o weinyddu'r cynllun i adennill costau i is-ddeddfwriaeth, yn debyg i'r hyn a ddigwyddodd gyda Deddf 2003.
63. Mae'r Tabl isod yn rhoi crynodeb o'r pwerau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil. Mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath, mae'r tabl yn nodi:
- Y person neu'r sefydliad y trosglwyddwyd y pŵer iddo;
 - Dull gweithredu'r pŵer;
 - Priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
 - Y weithdrefn a ddefnyddiwyd (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn) os o gwbl.

Tabl

Adran	Trosglwyddwyd pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
Adran 3(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau sydd angen hyblygrwydd i ddiwygio'r diffiniad o "gwasanaethau wedi'u heithrio" mewn ymateb i newidiadau posibl i'r patrwm darparu gwasanaethau yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Er mwyn diwygio'r diffiniad o "gwasanaethau wedi'u heithrio" rhaid sicrhau gwaith craffu gan y weithdrefn gadarnhaol gan y byddai'n arwain at newid sylweddol i'r Ddeddf, gyda gwasanaethau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y weithdrefn adennill costau.
Adran 4(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau sydd angen hyblygrwydd i ddiwygio'r rhestr eithriadau er mwyn ystyried datblygiadau yn y dyfodol	Cadarnhaol	Er mwyn dileu taliad o'r rhestr eithriadau rhaid sicrhau gwaith craffu gan y weithdrefn gadarnhaol gan y byddai'n arwain at newid sylweddol i'r Ddeddf, gyda thaliadau ychwanegol yn achosi colledwr i fod yn atebol am dalu ffioedd y GIG o dan y Ddeddf
Adran 4(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau sydd angen hyblygrwydd i ddiwygio'r rhestr eithriadau er mwyn ystyried datblygiadau yn y dyfodol	Negyddol	Bydd ychwanegu taliadau at y rhestr eithriadau yn swyddogaeth weinyddol/dechnegol yn bennaf, ac ni fyddai'n arwain at unrhyw atebolrwydd ariannol ychwanegol ar gyfer digolledwr
Adran 5(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau gan y byddai'n cynnwys manylion sylweddol a fyddai'n llyffetheirio darlleniad y Bil	Negyddol	Bydd natur y cynnwys yn dechnegol/gweinyddol

Adran	Trosglwyddwyd pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
Adran 3(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau sydd angen hyblygrwydd i ddiwygio'r diffiniad o "gwasanaethau wedi'u heithrio" mewn ymateb i newidiadau posibl i'r patrwm darparu gwasanaethau yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Er mwyn diwygio'r diffiniad o "gwasanaethau wedi'u heithrio" rhaid sicrhau gwaith craffu gan y weithdrefn gadarnhaol gan y byddai'n arwain at newid sylweddol i'r Ddeddf, gyda gwasanaethau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y weithdrefn adennill costau.
Adran 5(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau gan y byddai'n cynnwys manylion sylweddol a fyddai'n llyffetheirio darlleniad y Bil	Negyddol	Bydd natur y cynnwys yn dechnegol/gweinyddol
Adran 6(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau er mwyn caniatáu hyblygrwydd a chynnwys manylion sylweddol a fyddai'n llyffetheirio darlleniad y Bil	Cadarnhaol (ar gyfer y gyfres gyntaf; negyddol ar gyfer cyfresi dilynol)	Bydd angen gweithdrefn gadarnhaol i bennu'r tariff cychwynnol gan ei bod yn un o ddarpariaethau allweddol y Ddeddf sy'n rhoi atebolrwydd ariannol ychwanegol ar ddigolledwyr, tra bydd newidiadau dilynol i'r tariff yn gymharol ddibwys ac yn digwydd yn rheolaidd
Adran 6(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau er mwyn caniatáu hyblygrwydd a chynnwys manylion sylweddol a fyddai'n llyffetheirio darlleniad y Bil	Negyddol	Bydd natur y cynnwys yn dechnegol/gweinyddol
Adran 6(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau er mwyn cynnwys manylion sylweddol a fyddai'n llyffetheirio darlleniad y Bil	Negyddol	Bydd natur y cynnwys yn dechnegol/gweinyddol

Adran	Trosglwyddwyd pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
Adran 3(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau sydd angen hyblygrwydd i ddiwygio'r diffiniad o "gwasanaethau wedi'u heithrio" mewn ymateb i newidiadau posibl i'r patrwm darparu gwasanaethau yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Er mwyn diwygio'r diffiniad o "gwasanaethau wedi'u heithrio" rhaid sicrhau gwaith craffu gan y weithdrefn gadarnhaol gan y byddai'n arwain at newid sylweddol i'r Ddeddf, gyda gwasanaethau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y weithdrefn adennill costau.
Adran 9(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau er mwyn cynnwys manylion sylweddol a fyddai'n llyffetheirio darlleniad y Bil	Negyddol	Bydd natur y cynnwys yn dechnegol/gweinyddol
Adran 10(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau er mwyn cynnwys manylion sylweddol a fyddai'n llyffetheirio darlleniad y Bil	I	
Adran 12(1), (2) a (3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau er mwyn cynnwys manylion sylweddol a fyddai'n llyffetheirio darlleniad y Bil	Negyddol	Bydd natur y cynnwys yn dechnegol/gweinyddol
Adran 14(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau er mwyn cynnwys manylion sylweddol a fyddai'n llyffetheirio darlleniad y Bil	Negyddol	Bydd natur y cynnwys yn dechnegol/gweinyddol
Adran 14(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau er mwyn cynnwys manylion sylweddol a fyddai'n llyffetheirio darlleniad y Bil	Negyddol	Bydd natur y cynnwys yn dechnegol/gweinyddol

Adran	Trosoglwyddwyd pŵer i	Dull	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
Adran 3(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau sydd angen hyblygrwydd i ddiwygio'r diffiniad o "gwasanaethau wedi'u heithrio" mewn ymateb i newidiadau posibl i'r patrwm darparu gwasanaethau yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Er mwyn diwygio'r diffiniad o "gwasanaethau wedi'u heithrio" rhaid sicrhau gwaith craffu gan y weithdrefn gadarnhaol gan y byddai'n arwain at newid sylweddol i'r Ddeddf, gyda gwasanaethau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y weithdrefn adennill costau.
Adran 15(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau drwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau sydd angen hyblygrwydd i amrywio unrhyw gyfyngiad, er enghraifft, i ystyried newidiadau eraill a wnaed gan reoliadau o dan y Bil	Negyddol	Bydd natur y cynnwys yn dechnegol/gweinyddol
Adran 20(2)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn drwy Offeryn Statudol	Mae angen y ddarpariaeth hon gan nad yw'r Bil yn dod i rym yn llawn ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol ond yn cael ei weithredu gan Weinidogion Cymru	Dim gweithdrefn	Dyma'r drefn ar gyfer Gorchymynion sydd ond yn dod â darpariaethau Deddfau i rym
Atodlen, paragraff 4	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau trwy Offeryn Statudol	Yn addas ar gyfer rheoliadau er mwyn cynnwys manylion sylweddol a fyddai'n llyffetheirio darlleniad y Bil, ac er mwyn caniatáu hyblygrwydd i ddiwygio'r rhestr o ymddiriedolaethau yn ôl y gofyn er mwyn ystyried datblygiadau yn y dyfodol	Negyddol	Bydd natur y cynnwys yn dechnegol/gweinyddol

RHAN 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol

6. Opsiynau

64. Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno pedwar opsiwn gwahanol mewn perthynas ag amcanion polisi'r Bil. 'Gwneud Dim' yw un o'r opsiynau ac mae tri opsiwn ar gyfer 'ymyrraeth' lle mae sefydliadau gwahanol yn gweinyddu'r cynllun. Ni chredir y byddai system wirfoddol yn ymarferol yn yr achos hwn. O dan drefniant gwirfoddol mae tystiolaeth yn awgrymu na fyddai pob yswiriwr yn y farchnad yn cydymffurfio ac ni fyddai hyn yn llwyddo i fodloni amcanion arfaethedig y polisi a gallai roi mantais annheg yn y farchnad i'r yswirwyr hynny.
65. Mae pob un o'r tri opsiwn ymyrraeth yn rhagdybio, ar sail cyfrifiadau'r aseiad effaith hwn, y bydd y swm i'w adennill yn seiliedig ar yr un tariffau a chyfrifiadau triniaeth safonol â'r rhai a ddefnyddir gan Uned Adfer Iawndal yr Adran Gwaith a Phensiynau i bennu costau triniaeth mewn achosion yn ymwneud ag anafiadau¹². Nid yw'r dull amgen o adennill cost wirioneddol y driniaeth sy'n gysylltiedig â phob achos wedi'i ystyried oherwydd y costau uchel tebygol o asesu achosion unigol. Cadarnhaodd yr Adran Iechyd y defnyddir y dull presennol a fabwysiadwyd yn sgil Deddf 2003, sef system tariff i gyfrifo costau'r GIG mewn achosion yn ymwneud ag anafiadau, am fod cyfrifo'r costau gwirioneddol yn cael ei ystyried yn rhy ddrud a chymhleth. Mae'r cynllun presennol ar gyfer adennill costau am anafiadau yn gyfaddawd ymarferol sy'n llwyddo i adennill costau'r GIG am gyfnodau o ofal, heb roi baich ar y GIG i gyflawni tasgau gweinyddol cymhleth er mwyn adennill costau gwirioneddol pob achos.
66. Yr opsiynau a asesir yn y ddogfen hon yw –
- a. **Opsiwn 1** – gwneud dim.
 - b. **Opsiwn 2.i** - cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr, yswirwyr neu ddigolledwyr cyfrifol eraill dalu ffioedd priodol am driniaeth a gofal y GIG a ddarparwyd i unigolion sydd wedi hawlio iawndal yn llwyddiannus ar gyfer yr afiechyd y maent wedi'i ddioddef o ganlyniad i ddod i gysylltiad ag asbestos. Byddai'r system hon yn cael ei gweinyddu gan y CRU (ar ran Gweinidogion Cymru).

¹² Z1 – Recovery of benefits and or lump sum payments and NHS charges, <http://www.dwp.gov.uk/publications/specialist-guides/technical-guidance/z1-recovery-of-benefits-and/>

- c. **Opsiwn 2.ii** - cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr, yswirwyr neu ddigolledwyr cyfrifol eraill dalu ffioedd priodol am driniaeth a gofal y GIG a ddarparwyd i unigolion sydd wedi hawlio iawndal yn llwyddianus ar gyfer yr afiechyd y maent wedi'i ddioddef o ganlyniad i ddod i gysylltiad ag asbestos. Byddai'r system hon yn cael ei gweinyddu gan Lywodraeth Cymru.

- d. **Opsiwn 2.iii** - cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr, yswirwyr neu ddigolledwyr cyfrifol eraill dalu ffioedd priodol am driniaeth a gofal y GIG a ddarparwyd i unigolion sydd wedi hawlio iawndal yn llwyddianus ar gyfer yr afiechyd y maent wedi'i ddioddef o ganlyniad i ddod i gysylltiad ag asbestos. Byddai'r system hon yn cael ei gweinyddu gan y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru.

7. Amcangyfrif o gostau a manteision

67. Dadansoddir pob un o'r opsiynau i ganfod i ba raddau y byddent yn cyflawni amcanion y Bil, ac asesir y costau, y manteision a'r risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phob opsiwn.
68. Fel y nodwyd yn y Memorandum Esboniadol i'r Bil uchod, mae tua 90 o farwolaethau yn sgil mesothelioma yng Nghymru bob blwyddyn. Fodd bynnag, ni chyflwynir cais am iawndal ym mhob achos ac nid yw pob cais am iawndal yn llwyddiannus. Yn seiliedig ar ddata'r CRU ar setliadau'n ymwneud ag achosion o fesothelioma, asbestosis a thewhau plewrol yng Nghymru, a chan ddarparu ar gyfer y twf a ragwelir yn nifer yr achosion o'r clefydau, rhagdybir y bydd rhwng 94 - 101 o achosion o fesothelioma, asbestosis a thewhau plewrol bob blwyddyn lle bydd modd adennill costau triniaeth y GIG.
69. Nid yw costau trin achosion o ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad costau a manteision. Mae casgliadau ymchwil ychwanegol i achosion a amlinellir yn yr adran Tariff isod (paragraffau 123 i 131) wedi nodi mai ychydig o hawliadau sy'n cael eu cyflwyno yng Nghymru mewn perthynas â chanser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos.
70. Mae'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn wedi'u hasesu dros gyfnod o bum mlynedd, rhwng 2013-14 a 2017-18. Disgwylir i'r broses o adennill costau triniaeth y GIG ddechrau yn 2014-15. Rhagwelir y bydd costau datblygu'r system TG yn cael eu hysgwyddo yn 2013-14 ac y bydd costau cyfarwyddo/hyfforddi yn cael eu hysgwyddo yn 2013-14. Cyflwynir y costau a'r manteision mewn termau Gwerth Presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt gwerth 3.5 y cant. Mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi.
71. Mae prif gostau'r Bil hwn yn deillio o weinyddu'r cynllun a'r costau i sefydliadau a fyddai'n atebol am dalu ffioedd y GIG. Bydd graddfa'r costau hyn yn dibynnu ar y system weinyddol a ddefnyddir, lefel y ffioedd y cytunwyd arni ar gyfer y system tariff berthnasol a nifer yr achosion a brosesir.
72. Mae'r costau trin sydd i'w hadennill o dan y Bil o fantais i'r sector cyhoeddus, ond mewn rhai achosion bydd y fantais hon yn cael ei gwrthbwyso os mai'r sector cyhoeddus yw'r digolledwr. Ariennir y system weinyddol reolaidd a ddefnyddir i adennill costau o'r costau sy'n cael eu hadennill, a bydd modd i Weinidogion Cymru fuddsoddi gweddill y costau a adenillir, er enghraifft, ym maes gofal ac ymchwil er mwyn trin dioddefwyr clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, heddiw ac yn y dyfodol.

73. Mae'r amcangyfrifon costio yn yr Aseiad Effaith hwn yn seiliedig ar waith cychwynol Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru 2012 i -

- Nodi dulliau gweinyddol addas ar gyfer adennill costau sy'n gysylltiedig â thrin cleifion mewnol am anaf sy'n gysylltiedig ag asbestos a fu'n destun taliad digolledu, a chwmpasu faint o arian y gellir ei adennill.
- Nodi dulliau amgen ac arfarnu eu cost, eu heffeithlonrwydd, eu heffeithiolrwydd a'u haddasrwydd sefydliadol.
- Defnyddio nifer o astudiaethau achos i nodi'r mathau o fewnbwn gofal iechyd a oedd eu hangen ar gyfer achosion o'r fath ac amcangyfrif faint o arian sy'n debygol o gael ei adennill.

74. Mae gwaith ymchwil ychwanegol wedi'i gyflawni ers cyflwyno'r Bil i'r Cynulliad i ehangu'r gwaith o samplu achosion o fesothelioma a ystyriwyd yn ymchwil Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, er mwyn cynnwys archwiliad o ddata achosion ar gyfer y clefydau eraill sy'n cael sylw yn y Bil. Bydd hyn yn llywio'r amcangyfrifon o'r symiau y gellid eu hadennill. Mae'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig hwn yn adlewyrchu'r adolygiad dilynol o ragdybiaethau a ddiweddarwyd yn ôl yr angen.

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

75. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'r system bresennol yn newid. Mae hyn yn golygu na fyddai costau trin y GIG yn cael eu hadennill mewn achosion lle mae dioddefwyr clefydau asbestos a/neu eu teuluoedd wedi ennill iawndal yn llwyddiannus. Nid oes unrhyw gostau neu fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Opsiynau

76. Mae opsiynau 2.i, 2.ii a 2.iii yn cynnwys yr un system o gyfrifo, adennill ac ailddosbarthu costau mewn perthynas â thriniaeth a gofal ar gyfer unigolion. Yr unig wahaniaeth yn y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn yw sut mae'r system yn cael ei gweinyddu (a chan bwy yn benodol).

77. Ystyriwyd tri opsiwn ar gyfer gweinyddu'r system, gyda'r swyddogaethau gweinyddol yn cael eu cyflawni ar ran Gweinidogion Cymru gan yr Uned Adfer Iawndal (Adran Gwaith a Phensiynau), Llywodraeth Cymru neu'r Byrddau Iechyd Lleol.

Opsiwn 2.i

78. Fel y nodir uchod, cydgysylltir y cynllun digolledu presennol am anafiadau gan yr Uned Adfer Iawndal (CRU) a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Fel rhan o'r dewis hwn, byddai'r un uned yn cael ei chomisiynu i weinyddu'r cynllun adennill costau ar gyfer clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos.
79. Mae sawl mantais i'r opsiwn hwn. Yn sgil ei gwaith o ddarparu gwasanaethau i'r DU gyfan (ac eithrio Gogledd Iwerddon) ar gyfer adennill costau anafiadau a budd-daliadau, mae gan y CRU brofiad o ymdrin ag achosion adennill iawndal, anghydfod ynglŷn â'r symiau i'w hadennill ac adennill dyledion. Mae systemau cynhwysfawr, cost effeithlon, awtomatig ar waith yn bennaf. Mae cysylltiad data sefydledig â digolledwyr a sefydliadau'r GIG ledled y DU yn darparu pwynt cyswllt sefydledig. Disgwylir i'r cynllun hwn gael ei weithredu mewn ffordd debyg iawn i'r cynllun ar gyfer achosion o anafiadau personol. Y prif wahaniaethau yw'r ffaith y bydd angen rhagor o gydweithredu o bosibl rhwng sefydliadau'r GIG ar gyfer achosion o glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, bydd tystysgrifau'n cael eu cyhoeddi yn amlach o bosibl wrth i'r clefydau ddatblygu, a'r ffaith y byddai'r incwm sy'n cael ei adennill yn cael ei ddychwelyd i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i sefydliadau'r GIG.

Costau Gweinyddol

80. Pe bai'r CRU yn gweinyddu'r cynllun, byddai costau ychwanegol yn codi cyn cychwyn pe bai angen newid y systemau hyn, oherwydd bod systemau awtomatig helaeth yn cael eu defnyddio ar gyfer y cynlluniau adennill presennol. Mae angen gwneud rhagor o waith manwl gyda'r CRU, ond credir y byddai angen y canlynol:
- Rhai newidiadau i'r cyfrifiadau tariff awtomatig, mae'n debygol mai ychydig iawn o newidiadau y bydd eu hangen, ond efallai y bydd angen gwneud mân welliannau;
 - Datblygu ffurflen coladu data electronig newydd;
 - Sicrhau bod y taliadau perthnasol yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.
81. Gofynnwyd am gyngor Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ynglŷn ag amcangyfrif o'r gost o ailddatblygu systemau presennol y CRU yn y modd hwn. Amcangyfrifir y bydd yr holl newidiadau uchod yn costio £82,500. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwariant cychwynol hwn arwain at system fwy effeithlon a chostau rheolaidd is (o gymharu ag opsiynau 2.ii a 2.iii) yn y dyfodol.

82. Byddai angen hyfforddi staff y CRU, staff Llywodraeth Cymru a'r BILlau i ddefnyddio'r system newydd. Amcangyfrifir mai £5,000 fyddai cyfanswm y costau hyfforddi hyn yn 2013-14.
83. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol (trwy'r Adran Iechyd) gyda'r CRU tua £155,000 y flwyddyn am ymdrin â thua 20,000 o achosion, sy'n cynnwys cost olrhain dyledion a pharatoi a rheoli achosion apêl. Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda'r CRU ynglŷn â'r agweddau ymarferol ar gydgyssylltu'r cynllun hwn. Ar sail y trafodaethau hyn, rhagdybir y bydd y ffi brosesu flynyddol ar gyfer y 94-101 o achosion o glefydau asbestos yn £5,900 yn codi i £6,300, ynghyd â £2,000 arall bob blwyddyn am gostau rheoli a monitro'r system ychwanegol. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y costau rheolaidd ar gyfer y CRU yw £7,900 yn codi i £8,300 y flwyddyn.
84. Bydd angen i'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru a dwy o dair Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru (fel sy'n berthnasol) hysbysu'r CRU am y gofal a ddarparwyd i'r unigolyn perthnasol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i achosion o anafiadau personol o dan gynllun presennol y CRU. Disgwylir y bydd yr effaith ar BILlau unigol yn gymharol fach o ystyried nifer yr achosion sy'n cael eu rhagweld a gwybodaeth am y broses gyffredinol. Yn ôl gwaith ymchwil cychwynnol gyda sefydliadau GIG Cymru, byddai'r gwaith yn cael ei wneud fel arfer gan rywun ar Fand 5 o raddfa gyflog y GIG. Y ffigur yng nghanol y band hwnnw (gan gynnwys gorbenion, pensiwn a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr) yw £31,850. Oherwydd natur y driniaeth sydd ei hangen, disgwylir i bob achos o fesothelioma fod yn fwy cymhleth nag achosion arferol yn ymwneud ag anafiadau sy'n cael eu hystyried gan y BILlau, sy'n cymryd tua 1-2 awr i'w trafod. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rhagdybir y bydd angen un diwrnod gwaith ar y mwyaf ar gost o tua £125 ar gyfer ystyried achos clefyd asbestos arferol. O ystyried y llwyth gwaith a ragwelir, sef 94-101 o achosion y flwyddyn, bydd yr opsiwn hwn yn costio tua £11,700, yn codi i £12,600 y flwyddyn i BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG.
85. Awgrymir bod y CRU yn ymdrin ag unrhyw adolygiadau o dystysgrifau ac apeliadau dilynol er mae'n debyg na fydd lawer o'r rheiny gan y bydd ceisiadau am iawndal wedi'u cytuno a thariff safonol wedi'i ddefnyddio. Mae'r cyfraddau apelio presennol mewn achosion o adennill costau ar gyfer anafiadau personol a chlefydau asbestos yn llai nag 1%. Mae costau gweinyddol trafod apeliadau a cheisiadau am adolygiadau o dystysgrifau wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon o gostau cyfartalog pob achos a drafodir gan y CRU, y GIG a busnesau. Mae'r amcangyfrif o'r arian a gaiff ei adennill wedi'i leihau un y cant bob blwyddyn i adlewyrchu'r cyfansymiau tybiedig na fyddai'n cael eu hadennill ar sail apêl.
86. Y bwriad yw atgyfeirio apeliadau o'r fath i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Er bod y gyfradd apelio'n isel, amcangyfrifwyd bod £5,000 o gostau'r

gwasanaeth hwn wedi'u hadennill gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2014/15. Disgwylir llai o apeliadau ar ôl y flwyddyn gyntaf, gyda'r costau a amcangyfrifir yn disgyn i £2,000 y flwyddyn ar ôl hynny.

Costau Busnes¹³

87. Bydd angen i bob cyflogwr a chwmni yswiriant perthnasol fod yn gyfarwydd â gofynion y cynllun a'r prosesau sydd i'w dilyn. Fodd bynnag, disgwylir i'r gost fesul busnes unigol fod yn gymharol fach oherwydd nifer y sefydliadau a allai gael eu heffeithio. Rhagwelir y bydd y costau pontio dangosol o £10,000 yn disgyn yn 2013-14.
88. Bydd modd adennill costau triniaeth y GIG unwaith y mae taliad digolledu wedi'i wneud i, neu mewn perthynas â, pherson yn sgil clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos. Gan y bydd y broses o adennill costau'r GIG yn rhan o broses ddigolledu sydd eisoes yn bodoli, disgwylir i'r gost gyfreithiol ychwanegol sy'n dod i ran y cyflogwr neu'r cwmni yswiriant atebol fod yn isel. Bydd angen i'r cyflogwr neu'r cwmni yswiriant ofyn am dystysgrif o Ffioedd y GIG a gwneud y taliad perthnasol ar ôl derbyn y dystysgrif. Rhagdybir y bydd angen codi ffi o £100 fesul achos i dalu am y gost weinyddol ychwanegol o gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Rhagdybir bod elfen gyfreithiol fach yn ymwneud yn benodol ag adennill costau triniaeth y GIG yn berthnasol i 50% o achosion, a rhagdybir y byddai hyn yn costio £100. Ystyrir bod y costau ychwanegol hyn yn cynnwys unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol posibl mewn achosion apêl, gan fod llai nag 1% o'r achosion uwchlaw lefelau apelio presennol ar gynlluniau a weinyddir gan y CRU. Felly, bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn costio rhwng £14,100 a £15,150 yn ychwanegol yn rheolaidd i gyflogwyr neu yswirwyr.
89. Mae'r costau sy'n cael eu hadennill ar gyfartaledd ar gyfer triniaeth y GIG (sy'n gost i'r cyflogwr neu'r yswiriwr) wedi'u nodi yn adran 'Y System Tariff' isod.
90. Mae'r broses a'r camau o dan opsiwn 2 wedi'u nodi isod:
 - Cam 1: Mae'r digolledwr (yswiriwr fel arfer) yn hysbysu'r CRU am gais am iawndal sy'n gysylltiedig ag asbestos, gan gynnwys manylion y gofal a ddarparwyd a gyflwynwyd gan y claf, ac yn gofyn am dystysgrif o ffioedd y GIG mewn fformat a chyfnod amser penodol.
 - Cam 2: Mae'r CRU yn hysbysu'r Bwrdd/Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth/Ymddiriedolaethau'r GIG perthnasol gan ofyn am

¹³ Defnyddir y term 'busnes' gydol yr asesiad effaith i gyfeirio at y cyflogwyr a'r cwmnïau yswiriant sy'n atebol. Gall y cyflogwyr a'r cwmnïau yswiriant hyn fod yn sefydliadau sector preifat neu sector cyhoeddus.

fanylion y gofal a ddarparwyd. Eto, mae angen gwneud hyn mewn fformat a chyfnod amser penodol.

Cam 3: Mae'r CRU yn cyfrifo costau'r GIG y gellir eu hadennill ac yn cyflwyno'r dystysgrif i'r digolledwr, gan ofyn am daliad. Mae'r CRU yn anfon unrhyw daliad a dderbynnir yn uniongyrchol at Weinidogion Cymru.

Opsiwn 2.ii

91. Ar gyfer yr opsiwn hwn, uned benodedig o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun. Byddai'r uned yn cydgysylltu'r gwaith yn yr un modd â'r CRU gan goladu'r wybodaeth ofynnol i'w hanfon i sefydliadau perthnasol y GIG; yn derbyn manylion y gofal a ddarparwyd; yn cyhoeddi tystysgrif o gyfanswm y gost; yn adennill taliadau yn uniongyrchol oddi wrth yr yswiriwr ac yn datrys unrhyw anghydfod gyda'r yswiriwr.
92. Mantais yr opsiwn hwn fyddai creu un pwynt cyswllt ar gyfer yr yswiriwr a sefydliadau'r GIG, ond byddai angen sefydlu swyddfa benodedig o fewn swyddogaeth bresennol y Llywodraeth (gorau oll os yw'n swyddogaeth gyllid) a sefydlu swyddogaethau addas ar gyfer gweinyddu a chasglu data.

Costau Gweinyddol

93. Byddai'r gwaith o gydgyssylltu'r cynllun hwn yn swyddogaeth newydd i Lywodraeth Cymru, a bydd sefydlu system ar gyfer rheoli hawliadau a hyfforddi staff yn arwain at gostau pontio. Byddai costau penodol yn ymwneud â threfnu a datblygu ffurflenni safonol, cronfeydd data a threfniadau diogel ar gyfer trawsyrru data ar gyfer y ffurflenni drwy Borth Diogel Rhannu Ffeiliau'r GIG. Byddai angen profi'r systemau hyn hefyd. Ar sail profiad diweddar o ddatblygu a phrofi system debyg, credir y byddai hyn yn costio tua £5,000. Mae £2,500 ychwanegol wedi'i nodi ar gyfer costau hyfforddi staff Llywodraeth Cymru a'r BILlau. Felly, disgwylir y byddai cyfanswm y costau pontio ar gyfer sefydliadau sy'n gweinyddu'r cynllun yn £7,500.
94. Credir y byddai angen penodi un aelod o staff llawn amser ychwanegol ar lefel Swyddog Gweithredol Uwch i wneud holl waith gweinyddol y cynllun o fewn Llywodraeth Cymru. Cost y swydd hon, gan gynnwys cyflog, pensiwn a gorbenion yw £38,100 y flwyddyn.
95. Bydd angen i'r BILlau a'r Ymddiriedolaeth/Ymddiriedolaethau hysbysu Llywodraeth Cymru am fanylion y driniaeth a ddarparwyd ym mhob achos. Fel sy'n wir am Opsiwn 2.i, disgwylir i'r swyddogaeth hon gostio £11,700 yn codi i £12,600 y flwyddyn. Fel sy'n wir am Opsiwn 2.i, amcangyfrifir y bydd nifer yr apeliadau a atgyfeirir i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar gyfer 2014/15 yn costio £5,000 yn disgyn i £2,000 yn y blynyddoedd dilynol. Mae hyn yn arwain at gost weinyddol gyffredinol reolaidd o £54,800, yn disgyn i £52,700 y flwyddyn.

Costau Busnes

96. Rhagdybir y bydd costau busnes yr opsiwn hwn yr un fath ag Opsiwn 2.i, gyda'r costau pontio bras yn £10,000 a'r costau blynyddol tua £14,100, yn codi i £15,150.
97. Mae'r costau sy'n cael eu hadennill ar gyfartaledd ar gyfer triniaeth y GIG (sy'n gost i'r busnes) wedi'u nodi yn adran 'Y System Tariff' isod.

Opsiwn 2.iii

98. Yr opsiwn olaf ar gyfer gweinyddu'r cynllun yw rhoi gwybod am hawliadau yn uniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu'r gofal. Byddai'r BILI arweiniol yn gyfrifol am gydweithio ag unrhyw sefydliad iechyd arall sy'n darparu triniaeth ac am sicrhau ymateb cydgysylltiedig o safbwynt y gofal iechyd a ddarparwyd. Byddai'r BILI hefyd yn gyfrifol am gyflwyno'r dystysgrif i'r yswiriwr ac

am ddychwelyd yr incwm net i Lywodraeth Cymru (ar ôl didynnu costau gweinyddol).

99. Un o fanteision yr opsiwn hwn yw'r ffaith fod gan y BILLau yng Nghymru brofiad o goladu data ar gyfer y cynllun anafiadau sydd eisoes yn bodoli, ac mae gan BILLau brosesau a thimau ar waith yn barod i roi gwybodaeth i'r Adran Gwaith a Phensiynau am achosion o anafiadau personol. Fodd bynnag, ni fyddai system o'r fath yn darparu un pwynt ar gyfer coladu data, arbenigedd a rheoli achosion. Hefyd, mae'r gwaith o sefydlu prosesau i goladu gofynion data yn debygol o arwain at ddyblygu gweithgareddau ar draws y BILLau.

Costau Gweinyddol

100. Disgwylir i gostau pontio fod yn debyg i'r costau a nodwyd ar gyfer Opsiwn 2.ii, sef tua £7,500.
101. Mae'r opsiwn hwn yn cynyddu'r gost flynyddol a ysgwyddir gan y BILLau yn sylweddol. Yn wahanol i'r ddau opsiwn blaenorol lle mae'r BILLau ond yn ymateb i gais am wybodaeth am y gofal iechyd a ddarparwyd i unigolyn, mae'r opsiwn hwn yn golygu bod angen i'r BILL perthnasol ymdrin yn uniongyrchol â'r cyflogwr/yswiriwr sy'n atebol, cydgysylltu ymateb unrhyw BILL, Ymddiriedolaeth y GIG neu ddarparwr gofal iechyd sydd wedi darparu triniaeth berthnasol i'r unigolyn, cyhoeddi'r dystysgrif derfynol ac anfon y taliad net i Lywodraeth Cymru.
102. Credir y bydd angen un swydd gyfwerth ag amser llawn ychwanegol ar draws y 7 BILL yng Nghymru i wneud y gwaith gweinyddol/cydgysylltu. Os penodir i'r swydd hon ar Fand 5 o raddfa gyflog y GIG, y gost yw £31,850 y flwyddyn (gan gynnwys cyflog, pensiwn a gorbenion). Rhagdybir y bydd y gost hon yn ychwanegol i'r gost o £11,700 yn codi i £12,600 y flwyddyn i alluogi BILLau i gynhyrchu'r data ar y driniaeth a dderbyniwyd ym mhob achos. Felly, credir y bydd cyfanswm y costau i'r BILLau yng Nghymru rhwng £43,550 a £44,450 y flwyddyn. Fel sy'n wir am Opsiwn 2.i, amcangyfrifir y bydd nifer yr apeliadau a atgyfeirir i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar gyfer 2014/15 yn costio £5,000, yn disgyn i £2,000 yn y blynyddoedd dilynol. Mae hyn yn arwain at gost weinyddol gyffredinol reolaidd o £48,500, yn disgyn i £46,400 y flwyddyn.

Costau Busnes

103. Rhagdybir y bydd costau busnes yr opsiwn hwn yr un fath â'r rhai yn Opsiwn 2.i, gyda chostau pontio o tua £10,000 a chostau blynyddol o tua £14,100, yn codi i £15,150.
104. Mae'r costau sy'n cael eu hadennill ar gyfartaledd ar gyfer triniaeth y GIG (sy'n gost i fusnes) wedi'u nodi yn adran 'Y System Tariff' isod.

Y System Tariff

105. Er mwyn amcangyfrif faint o arian gaiff ei adennill trwy'r cynllun hwn (i'w dalu gan y cyflogwr/cwmni yswiriant atebol), mae angen ystyried y system tariff arfaethedig a'r llwybrau triniaeth perthnasol.
106. Yn debyg i'r cynllun adennill costau am anafiadau sydd eisoes yn bodoli, cynigir system tariff wedi'i chapio ar gyfer y Bil fel ffordd ymarferol o hwyluso'r gwaith o adennill costau'r GIG fel na fydd costau gweinyddol sylweddol yn codi yn sgil sefydlu costau trin pob claf yn unigol. Mae defnyddio system tariff yn golygu bod y swm gaiff ei hawlio yn debygol o fod yn wahanol i gost wirioneddol pob achos unigol.
107. Mae gwaith ymchwil wedi'i gwblhau a'i amlinellu isod i ystyried a yw'r system tariff a ddefnyddir i adennill costau'r GIG o dan y cynllun adennill costau am anafiadau presennol yn sylfaen ymarferol ar gyfer y cynllun arfaethedig. Mae gwaith ymchwil i asesu'r costau o drin cyflyrau meddygol sy'n deillio o gysylltiad ag asbestos wedi ystyried yr holl glefydau sy'n cael sylw yn y Bil.

Mesothelioma

108. Er mwyn asesu'n llawn y costau gwirioneddol o drin achosion o fesothelioma, mae ffeiliau manwl o achosion meddygol wedi'u darparu ar gyfer 20 claf sydd wedi cael diagnosis mesothelioma. Mae archwiliad o'r achosion hyn yn datgelu amrywiadau arwyddocaol mewn gofal, sy'n dibynnu ar gyflwr meddygol y claf ei hun, ynghyd â llwybr clinigol cryf. Yn eu hanfod, dyma'r camau-
- Mae'r claf yn mynd at ei feddyg teulu gan nodi ei fod yn fyr ei anadl.
 - Mae'r claf yn cael ei anfon am belydr X yn ei ysbyty lleol sy'n nodi canfyddiadau cychwynnol.
 - Mae'r claf yn cael rhagor o brofion yn yr ysbyty lleol, gan gynnwys sganiau CT.
 - Er mwyn cadarnhau'r diagnosis, cynhelir biopsi, yn aml mewn canolfannau mwy arbenigol os bydd angen llawdriniaeth. Mae achosion diweddarach yn y sampl a adolygwyd yn dangos bod ysbytai lleol yn manteisio ar drefniadau cynnal biopsi gan ddefnyddio CT, sy'n golygu llai o lawdriniaeth ymwithiol.
 - Ar ôl cadarnhau'r cyflwr, mae'r claf yn cael cynnig cyfnodau lliniarol o gemotherapi yn unol â'i gyflwr meddygol, er mwyn lleddfu ei gyflwr pan fo'r prognosis yn wael.

- Gall cyflwr y claf waethygu yn aml, gan arwain at sawl arhosiad mewn ysbyty, yn enwedig os yw'n anodd iawn anadlu.
 - Gall y claf aros gartref gyda chymorth timau gofal sylfaenol.
 - Mae'n bosibl y bydd angen gofal lliniarol ar y claf mewn hosbis leol, ond mae hyn yn anghyffredin o ystyried yr amser byr rhwng dechrau'r clefyd a marwolaeth.
 - Mae'r claf yn marw o fewn 6 i 18 mis o ddechrau'r clefyd fel arfer, yn dibynnu ar natur y clefyd.
109. Mae'n amlwg y bydd y cleifion hyn yn dibynnu ar sawl ymyrraeth glinigol mewn lleoliadau clinigol gwahanol ac mewn mwy nag un BILL a/neu Ymddiriedolaeth y GIG. Mewn achosion o fesothelioma, mae cleifion yn marw mewn cyfnod cymharol fyr gan amlaf.
110. Mae cofnodion manwl triniaeth cleifion unigol wedi'u harchwilio er mwyn ceisio nodi'r holl ymyraethau meddygol a llawfeddygol, nodi costau'r holl ofal a chyfrifo cyfanswm y gost. Mae cost wirioneddol triniaeth y GIG yn yr 20 achos a archwiliwyd wedi'i chrynhof yn Nhabl 1.

Tabl 1 – Crynodeb o’r costau gwirioneddol ar gyfer yr 20 o gleifion

Cyfeirnod y claf	Nifer y diwrnodau claf mewnol	Cyfanswm Cost Gwirioneddol y GIG	Cyfeirnod y claf	Nifer y diwrnodau claf mewnol	Cyfanswm Cost Gwirioneddol y GIG
P1	64	£32,961	P11	35	£12,187
P2	35	£24,102	P12	69	£19,050
P3	15	£18,198	P13	2	£3,133
P4	42	£40,052	P14	0	£2,400
P5	23	£18,445	P15	11	£4,796
P6	49	£18,886	P16	107	£41,482
P7	17	£18,720	P17	5	£6,324
P8	6	£6,870	P18	11	£4,097
P9	86	£53,035	P19	14	£5,370
P10	16	£7,772	P20	7	£2,626
			Cyfartaledd	31	£17,025

Ffynhonnell: Gwaith ymchwil Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru a gynhaliwyd yn 2012 ac ymchwil ychwanegol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

111. Y gost gyfartalog ar gyfer yr 20 achos yw £17,025 (yn seiliedig ar brisiau 2010/11), ond rhaid nodi mai £53,035 oedd y gost uchaf a £2,400 oedd y gost isaf. Wrth astudio’r costau unigol, daw i’r amlwg bod nifer/hyd arosiadau cleifion mewnol mewn ysbytai yn ffactor perthnasol wrth gyfrifo’r gost gyffredinol. Yn achos claf 9, cafodd y claf 86 diwrnod o arosiadau fel claf mewnol a gostiodd £45,285, sef 85% o gyfanswm y gost. Yn achos claf 14, ni chafodd y claf unrhyw ddiwrnodau o arosiadau fel claf mewnol.¹⁴
112. Mae’r costau perthnasol eraill yn cynnwys cemotherapi a gwasanaethau eraill ar gyfer cleifion allanol.
113. Er mwyn adennill costau sy’n deillio o glefydau sy’n gysylltiedig ag asbestos mewn ffordd gost-ffeithiol, mae’n anrnod y bydd angen cael cydbwysedd rhwng cywirdeb a symlrwydd. Mae cywirdeb yn bwysig o safbwynt Llywodraeth Cymru er mwyn adennill cymaint o gostau â phosibl, ond mae hefyd yn bwysig o safbwynt yr yswiriwr er mwyn sicrhau tegwch. Fodd bynnag, byddai sicrhau cywirdeb llawn ym mhob achos yn cynyddu’r llwyth gwaith a’r costau gweinyddol yn sylweddol, felly hwyrach na fyddai’n gost-ffeithiol. Wrth ddefnyddio tariffau wedi’u safoni, y nod fyddai cynnig cydbwysedd rhesymol rhwng cywirdeb a symlrwydd, gan gyflawni prif amcanion y ddeddfwriaeth. Mae’r Adran Iechyd wedi cadarnhau mai hon oedd y sail resymegol wreiddiol ar gyfer datblygu’r tariff wedi’i safoni ar gyfer achosion yn ymwneud ag anafiadau.

¹⁴ Gwaith ymchwil Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru a gynhaliwyd yn 2012 ac ymchwil ychwanegol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru

114. O ystyried bod arosiadau cleifion mewnol yn ffactor mor bwysig yn yr achosion hyn, profwyd y costau gwirioneddol yn erbyn y tariffau safonol a ddefnyddir yn genedlaethol gan y CRU ar gyfer achosion yn ymwneud ag anafiadau personol. Ym mis Ebrill 2010, y tariff oedd £719 fesul diwrnod mewnol neu £585 ar gyfer pob apwyntiad claf allanol os na dderbyniwyd unrhyw gleifion mewnol. Yn ogystal, codir ffi ar wahân o £177 fesul taith unigolyn ar gyfer gwasanaethau ambiwlans.¹⁵ (Codir y tariffau hyn ar sail chwyddiant Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol bob blwyddyn). Mae Tabl 2 yn cymharu'r gost a adenillwyd a'r gost a amcangyfrifir ar sail y tariff safonol a'r gost wirioneddol ar gyfer yr 20 claf.

115. Yn y cyfrifiadau isod, mae'r tariff wedi'i ddefnyddio mewn perthynas â thriniaeth ar ôl diagnosis yn unig er mwyn egluro bod triniaethau'r GIG y mae modd adennill eu costau yn ymwneud yn benodol â chlefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos. Roedd y cofnodion a archwiliwyd yn fodd o nodi'r holl driniaethau sy'n gysylltiedig â'r clefyd o'r cychwyn cyntaf. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall cynnwys triniaethau cyn diagnosis yn y cyfrifiad tariff gymhlethu'r dasg o weinyddu'r achosion unigol, er y gall gynyddu cyfanswm y costau a adenillir gan y GIG.

Tabl 2 Cymharu'r Tariff Safonol a'r Gost Wirioneddol

Cyfeirnod y claf	Cost y GIG ar ôl Diagnosis	Adennill Tariff ar ôl Diagnosis	Cyfeirnod y claf	Cost y GIG ar ôl Diagnosis	Adennill Tariff ar ôl Diagnosis
P1	£27,933	£35,231	P11	£9,788	£20,132
P2	£19,735	£15,099	P12	£9,760	£30,198
P3	£11,693	£7,190	P13	£2,716	£1,438
P4	£34,921	£26,603	P14	£1,322	£585
P5	£15,671	£10,785	P15	£72	£585
P6	£6,880	£14,380	P16	£32,975	£42,999*
P7	£5,126	£2,876	P17	£1,218	£585
P8	£417	£585	P18	£2,937	£6,471
P9	£30,000	£39,545	P19	£2,749	£4,314
P10	£7,020	£11,504	P20	£310	£585
			Cyfartaledd	£11,162	£13,585

Ffynhonnell: Gwaith ymchwil Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru a gynhaliwyd yn 2012 ac ymchwil ychwanegol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru


116. Mae'r cyfrifiad tariff wedi defnyddio egwyddorion presennol y cynllun adennill costau am anafiadau personol ar gyfer trosglwyddo cleifion mewnol, cleifion allanol a chludo cleifion mewn ambiwlans, gan gynnwys y cap tariff cyffredinol lle bo hynny'n berthnasol. O dan y cynllun presennol, mae yna derfyn i gyfanswm costau'r GIG y mae modd eu hadennill, sef y tariff "wedi'i gapio", a oedd yn £42,999 yn

¹⁵ Gwaith ymchwil Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru a gynhaliwyd yn 2012

2010/11. Nid yw'r cyfrifiad yn cynnwys tariff ar gyfer gofal sylfaenol, ond mae costau gofal sylfaenol yn yr achosion a archwiliwyd yn llai na 3% o gyfanswm costau'r GIG.

- 117. Ar lefel achosion unigol ceir amrywiad sylweddol (mwy na 10%) rhwng cost wirioneddol y driniaeth a'r ffigur a gyfrifir trwy ddefnyddio'r tariff safonol ym mwyafrif yr 20 achos. Mae'r amrywiadau sydd i'w gweld ar lefel achosion yn adlewyrchu'r sampl data bach a oedd ar gael i'w ddadansoddi.
- 118. Mae siart 1 isod yn cymharu'r ffigurau ar ffurf graff. Mae hyn yn cymharu'r tariff safonol ar ôl diagnosis a'r gost wirioneddol ym mhob un o'r 20 achos.

Siart 1 - Cymharu costau gwirioneddol a'r tariff safonol



Ffynhonnell: Gwaith ymchwil Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru a gynhaliwyd yn 2012 ac ymchwil ychwanegol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru

- 119. Y gost gyfartalog y mae modd ei hadennill ar gyfer y tariff safonol mewn perthynas â thriniaeth ar ôl diagnosis yw £13,585, a chost wirioneddol gyfartalog y GIG ar gyfer triniaeth ar ôl diagnosis yw £11,162, gwahaniaeth o £2,423 neu 21.7% o blaid y tariff safonol ar sail prisiau 2010/11.
- 120. O gymharu â chost gyfartalog triniaethau'r GIG (a amlinellir yn Nhabl 1, gan gynnwys costau o'r dyddiad dechrau) ar gyfer yr achosion a archwiliwyd, ar gyfartaledd mae modd adennill 80% o gostau triniaethau'r GIG trwy ddefnyddio'r tariff mewn perthynas â thriniaeth

ar ôl diagnosis yn unig. Pe bai'r tariff safonol yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â chyfanswm triniaethau'r GIG yn yr achosion a archwiliwyd, gan gynnwys triniaeth cyn diagnosis, byddai'r cyfanswm y mae modd ei adennill ym mhob achos yn codi i £18,983, ychydig yn uwch na'r gost wirioneddol gyfartalog.

121. Ar gyfer yr achosion o fesotheleoma a archwiliwyd, byddai defnyddio'r tariff safonol mewn perthynas â thriniaethau ar ôl diagnosis yn unig yn adennill cyfran sylweddol o gostau'r GIG. Byddai hefyd yn hawdd ei weinyddu ac yn defnyddio methodoleg sydd wedi hen ennill ei phlwyf.
122. Mae angen ystyried dau bwynt pellach wrth ddadansoddi'r canlyniad hwn a phriodoldeb defnyddio'r tariff safonol.
- a. Mae'r gymhariaeth yn seiliedig ar 20 achos yn unig, dros gyfnod o 6 blynedd. O ystyried y sampl cymharol fach, nid yw'n glir a yw'r canlyniadau hyn yn cynrychioli cost gyfartalog wirioneddol triniaeth.
 - b. Hyd yn oed os yw'r sampl yn gywir, gall datblygiadau meddygol arwain at batrymau gwahanol o driniaeth yn y dyfodol a allai danseilio cywirdeb y tariff safonol sy'n seiliedig yn bennaf ar arosiadau cleifion mewnol mewn ysbytai. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i roi cyffuriau drud i gleifion mewn lleoliad cleifion allanol neu ofal dydd.

Canser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos

123. Fel yr amlinellir ym mharagraff 21 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, mae'n gallu bod yn anodd pennu nifer y marwolaethau o ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos oherwydd cymhlethdodau wrth gael diagnosis o'r mathau hyn o ganser o ganlyniad i ddod i gysylltiad ag asbestos yn hytrach nag achosion eraill megis ysmegu. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn amcangyfrif bod modd priodoli cymaint o farwolaethau i ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos ag i fesotheleoma.
124. Wrth gynnal ymchwil, cadarnhaodd arbenigwr clinigol ei bod hi'n anodd iawn profi bod y canser wedi dechrau o ganlyniad uniongyrchol i ddod i gysylltiad i asbestos, yn hytrach nag ysmegu neu unrhyw ffactor arall. Hyd yn oed gyda hanes bywyd galwedigaethol manwl sy'n gysylltiedig ag asbestos, golygai'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r cleifion hyn yn ysmegu hefyd, a fyddai wedi cynyddu'r perygl o ganser yn sylweddol, na chraffwyd ar lawer o achosion.
125. Anfonwyd ceisiadau i Gymdeithas Yswirwyr Prydain a'r Uned Adfer Iawndal mewn perthynas â nifer yr hawliadau am iawndal ar gyfer

achosion o ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos, ond nododd yr ymatebion nad oedd manylion o'r fath yn cael eu cadw.

126. Yn y DU yn 2011, cafodd 315 o achosion o ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos eu hasesu ar gyfer budd-dal anabledd, sydd dipyn yn is nag y byddai'r gymhareb canser yr ysgyfaint i fesothelioma yn awgrymu.
127. Y bwriad oedd samplu 10 achos i'w hadolygu, ond llwyddwyd i gael cofnodion 8 achos dros gyfnod o 11 mlynedd.
128. Mae'r wybodaeth sydd ar gael gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn nodi bod nifer cyfartalog yr achosion o ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos a gofrestrwyd ar gyfer budd-dal anabledd tua 5 y flwyddyn yng Nghymru. Gan ddefnyddio'r un gyfran o hawliadau mesothelioma sy'n cael eu setlo y flwyddyn i'r nifer a amcangyfrifir o farwolaethau a briodolir i fesothelioma y flwyddyn, dim ond 3-4 achos y flwyddyn yw hyn, gan gynnwys unrhyw gynnydd mewn mynychder sy'n adlewyrchu tueddiadau mesothelioma.
129. O ystyried yr anawsterau o lunio amcangyfrif dibynadwy o achosion tebygol y flwyddyn, a'r ffaith mai prin fydd yr achosion hyn, nid yw'r costau a'r manteision mewn perthynas â'r clefyd hwn wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau asesu opsiynau a amlinellir isod.
130. Yn yr 8 achos a archwiliwyd, roedd y llwybr clinigol yn dilyn fwy neu lai yr un camau â mesothelioma, yn aml gyda phrognosis tebyg. Mae cleifion yn cael cynnig radiotherapi a/neu gemotherapi ar ôl i'r canser gael ei gadarnhau.
131. Ar gyfer yr achosion hyn, byddai defnyddio'r un tariff safonol ar gyfer triniaeth ar ôl diagnosis yn adennill £12,262 ar gyfartaledd. Felly, byddai'r symiau y gellid eu hadennill ar brisiau 2013/14 ar gyfer 3-4 achos y flwyddyn (ar ôl ystyried methu ag adennill 1% yn sgil apeliadau) rhwng £39,000 a £52,000 y flwyddyn.

Cyflyrau anfalaen tewhau plewrol ac asbestosis

Tewhau plewrol

132. Mae clefyd plewrol anfalaen yn gyflwr nad yw'n ganser sy'n effeithio ar leinin allanol yr ysgyfaint, yn bennaf yn sgil dod i gysylltiad ag asbestos dros flynyddoedd lawer. Mae'n cynnwys dau fath o'r clefyd sy'n creu anabledd, sef tewhau plewrol ymledol a'r math llai difrifol (nad yw wedi'i gynnwys yn y Bil), sef placiau plewrol. Mae tewhau plewrol yn gyflwr sy'n arwain at golli anadl, ac mae'n effeithio felly ar ansawdd bywyd dioddefwyr.

133. Yn ôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cafodd 440 o achosion newydd o dewhau plewrol eu hasesu am anafiadau diwydiannol yn y DU yn 2011. Yn seiliedig ar ffigurau hanesyddol nifer yr achosion a oedd wedi'u setlo yn ôl y CRU, a chan ystyried cyfraddau twf posibl tebyg i rai mesothelioma, amcangyfrifir y bydd nifer cyfartalog yr achosion o dewhau plewrol sy'n gymwys i adennill costau'r GIG yng Nghymru yn 11-12 y flwyddyn.

Asbestosis

134. Cyflwr meddygol ffibrotig a llidiol cronig sy'n effeithio ar yr ysgyfaint yw asbestosis, sy'n digwydd wrth i bobl fewnanadlu a chadw ffibrau asbestos yn eu hysgyfaint. Fel arfer, bydd y cyflwr yn datblygu ar ôl blynyddoedd lawer o ddod i gysylltiad cyson ag asbestos. Mae yna berygl y gall dioddefwyr asbestosis ddatblygu canserau malaen megis cancer yr ysgyfaint a mesothelioma. Unwaith eto, mae cleifion yn dioddef o ddiffyg anadl, felly mae hwn yn gyflwr sy'n creu anabledd sy'n effeithio ar ansawdd bywyd dioddefwyr.

135. Yn 2011, cafwyd 725 o achosion o asbestosis eu hasesu am y tro cyntaf yn y DU. Yn seiliedig ar ffigurau hanesyddol nifer yr achosion a oedd wedi'u setlo yn ôl y CRU, a chan ystyried cyfraddau twf tebyg i rai mesothelioma, amcangyfrifir y bydd nifer cyfartalog yr achosion o asbestosis sy'n gymwys i adennill costau'r GIG yng Nghymru yn 24-26 y flwyddyn.

136. Er gwaethaf y ffaith bod gan dewhau plewrol ac asbestosis wahanol batholegau, mae ganddynt effeithiau sy'n creu anabledd a llwybrau clinigol tebyg. Datgelodd archwiliad o 12 achos (6 ar gyfer pob cyflwr) y llwybr clinigol canlynol.

- Mae'r claf yn mynd at ei feddyg teulu gyda pheswch parhaus a byrder anadl.
- Mae'r claf yn cael pelydr X ar ei frest sy'n dangos cysgod neu graith cronig.
- Mae'r claf yn cael ei atgyfeirio am sgan CT sydd fel arfer yn cadarnhau'r cyflwr.
- Weithiau, bydd angen biopsi neu thorascopi i sicrhau nad yw'r cyflwr yn falaen.
- Mae'r claf yn dioddef o heintiau rheolaidd ar ei frest ac yn cael ei drin yn aml heb orfod mynd i'r ysbyty.
- Mae angen meddyginiaeth reolaidd i'w helpu i anadlu, gan gynnwys mewnanadlyddion ac weithiau ocsigen.

- Mae'r claf yn mynychu clinig Meddyg y Frest yn ei ysbyty lleol yn rheolaidd.
137. Yn wahanol i'r achosion o fesothelioma a chanser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos, mae'n gallu bod yn anodd asesu pryd mae'r clefyd wedi dechrau ac, yn aml, bydd y cofnodion meddygol yn mynd yn ôl flynyddoedd lawer. Nid yw'r cyflyrau'n bygwth bywyd o reidrwydd, sy'n golygu y bydd y driniaeth yn parhau dros gyfnod hir.
138. Roedd yr adolygiad o 12 achos a samplwyd yn ymwneud â chofnodion yn amrywio o flwyddyn i 12 mlynedd. Mae hyn yn cymharu â'r amser cyfartalog a gymerir i setlo achosion o'r fath, sef 23 - 30 mis (data'r CRU). Nod y Bil yw adennill costau'r GIG i'r pwynt setlo i ddarparu eglurder a sicrwydd i'r parti atebol mewn perthynas â'i atebolrwydd posibl, ac er mwyn osgoi gweld achosion yn aros heb eu datrys am flynyddoedd lawer, gan arwain at wariant gweinyddol parhaus. Felly, nid yw'n briodol ystyried costau cyfartalog triniaeth y GIG dros sawl blwyddyn yn yr achosion hyn.
139. Oherwydd eu bod yn gyflyrau cronig, byddai ystyried cost flynyddol gyfartalog triniaeth barhaus yn asesiad mwy ymarferol. Cost gyfartalog y driniaeth yn yr achosion a archwiliwyd oedd £949 ar sail prisiau 2010/11. Ystyriaeth arall yw cost y llwybr clinigol safonol dros flwyddyn; mae meddyg teulu'n rhoi meddyginiaeth - mewnanadlyddion, (Tiotpiwm) i gynorthwyo anadlu, ymweliadau rheolaidd â'r meddyg teulu - heintiau ar y frest x3 a gwrthfotigau, ymweliadau rheolaidd â chlinig y frest x 2; ar sail prisiau 2010/11, byddai'r gost i'r GIG yn £754 y flwyddyn.
140. Gan ddefnyddio'r un egwyddorion tariff safonol ag a ddefnyddir mewn perthynas â mesothelioma a chanser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos, o ystyried y llwybrau clinigol a nodir a'r cyfnod hawlio cymwys tebygol cyn derbyn setliad, mae'n debygol mai'r swm y gellir ei adennill ar gyfer pob achos o'r cyflyrau cronig hyn fyddai un ymweliad claf allanol am £627 ar sail prisiau 2013/14. Mae hwn yn amcangyfrif gofalus gan fod 2 o'r 12 achos a adolygwyd yn cynnwys arosiadau claf mewnlol ar ôl diagnosis, un ohonynt am gyfnod o 25 diwrnod.
141. Y gost flynyddol i'r GIG ar sail llwybr blynyddol nodweddiadol uchod fyddai £807 yn nhermau 2013/14, a fyddai'n dod i gyfanswm o £8,000 - £16,000 dros gyfnod o 10 i 20 mlynedd. Byddai'r cyfanswm a adennillir o'r tariff yn y termau hyn yn is o lawer na'r gost i'r GIG.
142. Wrth asesu pa mor briodol yw mecanwaith y tariff ar gyfer asbestosis a thewhau plewrol, rhaid ystyried pa mor gosteffeithiol yw'r mecanwaith o ran adennill costau. Er nad yw'r tariff yn adennill holl gostau'r GIG ar gyfer trin cyflyrau cronig o bell ffordd, byddai ceisio adennill costau naill ai trwy drefniant blynyddol parhaus neu ar ddiwedd cyfnod penodedig yn arwain at gostau gweinyddol parhaus sylweddol pellach,

gan y byddai angen cadw cofnodion dros flynyddoedd lawer. Byddai'r costau sefydlu'n siŵr o godi'n sylweddol hefyd.

143. At hyn , efallai y byddai digolledwyr yn cael eu hannog i beidio â setlo achosion yn gyflym pe bai'r gwaith o adennill costau'r GIG yn parhau tan ryw bwynt amhenodedig yn y dyfodol, ond byddai adennill i'r pwynt setlo yn rhoi sicrwydd i bob parti.
144. Gall achosion cronig hefyd dderbyn iawndal dros dro, a fyddai'n adennill costau'n ymwneud â'r diagnosis cychwynnol. Os bydd dioddefwr yn mynd ymlaen i gael diagnosis o gyflwr malaen megis mesothelioma neu ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos, gall geisio cael setliad pellach, a fyddai'n caniatáu adennill costau ychwanegol y GIG.
145. Mae cyfanswm blynyddol a chyfunol yr achosion o asbestosis a thewhau plewrol, sy'n gyfrifol am batrymau twf tebygol mewn clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, yn dod i 35-38 o achosion yng nghyfnod yr aseciad effaith hwn. O ystyried costau cymharol isel triniaethau o gymharu ag achosion o fesothelioma, a'r cyfanswm is o achosion a ragwelir ar gyfer cyflyrau cronig, ystyrir y byddai defnyddio mecanwaith tariff safonol i adennill costau'r GIG yn rhesymol ar draws y clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos sy'n cael sylw yn y Bil mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.
146. Fel gyda phob maes polisi a rhaglen newydd, ystyrir y byddai'n briodol cynnal gwerthusiad cyfnodol o ba mor effeithiol a phriodol yw'r cynllun. Dylai adolygiad o'r fath roi sylw i ba mor berthnasol a rhesymol yw'r tariff safonol. Ystyrir ei bod hi'n briodol cynnal yr adolygiad cyntaf 5 mlynedd ar ôl cyflwyno'r cynllun. Nid yw costau gwerthusiad o'r fath wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol hwn.
147. Ar sail amcangyfrif o 94-101 achos o glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos bob blwyddyn (yn seiliedig ar ddata'r CRU ar gyfer hawliadau a setliadau mesothelioma yng Nghymru, a'r cyfraddau twf blynyddol a ragwelir) a'r cyfansymiau y mae modd eu hadennill uchod ar sail y tariff safonol, byddai modd adennill tua £880,000 yn codi i £940,000 gros y flwyddyn (ar sail prisiau 2013/14)¹⁶. Ar hyn o bryd, ceir apeliadau mewn tua 0.1% - 0.2% o achosion yng nghynllun anafiadau'r CRU. O ganiatáu gwahaniaeth o 1% ar gyfer apeliadau, byddai modd adennill tua £870,000 yn codi i £931,000 net.
148. Mae'r cynllun adennill costau am anafiadau personol presennol, a weinyddir gan y CRU, yn cynghori cyrff y GIG i leihau eu darpariaethau

¹⁶ Prisiau wedi'u codi gan ddefnyddio ffactorau chwyddiant blynyddol y Gwasanaethau Ysbytai a Chymunedol, a ddefnyddir ar gyfer cynllun tariff presennol yr ICR, ac sy'n adlewyrchu'r ffactorau chwyddiannol sy'n berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau'r GIG.

ar gyfer incwm a ragwelir 12.6% ar sail tueddiadau o ran methu ag adennill dyledion. Fodd bynnag, mae proffil y digolledwyr o dan y cynllun presennol a'r cynllun a gynigir gan y Bil yn wahanol iawn. Mae'r cynllun adennill costau am anafiadau personol yn prosesu miloedd o hawliadau y flwyddyn, sy'n cynnwys damweiniau traffig ar y ffordd sydd, yn eu tro, yn cynnwys erlid gyrwyr heb yswiriant i adennill costau. Mae'r cynllun presennol hefyd yn cynnwys pob anaf o ganlyniad i hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr – efallai y bydd gan gyflogwr yswiriant neu efallai na fydd ganddo yswiriant, ac felly gall ystod eang o fusnesau olrhain taliad yn uniongyrchol gan gynnwys BBaChau.

149. Mae'n annhebygol y bydd proffil y digolledwyr yr adennillir costau ganddynt ar gyfer clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, a nifer yr achosion, yn rhannu nodweddion o'r fath. Felly, gan nad oes unrhyw dystiolaeth ddibynadwy ar gael ynglŷn â methu ag adennill dyledion, ni chafodd unrhyw ostyngaid ei ychwanegu i'r cyfansymiau y gellir eu hadennill a ddefnyddir yn y dadansoddiad o opsiynau.
150. Mae'r swm y mae modd ei adennill yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig hwn yn is o lawer na'r swm a amcangyfrifwyd yn y Memorandwm Esboniadol gwreiddiol, sef £2.01 miliwn y flwyddyn. Mae ymchwil pellach wedi nodi bod patrwm triniaethau mesothelioma wedi newid gan arwain at gyfradd adennill is ar gyfartaledd, oherwydd llai o arosiadau claf mewnol. Mae data ychwanegol ar nifer yr achosion sy'n cael eu setlo ar gyfer pob clefyd, yn ogystal â'r duedd i gyflwyno hawliadau mewn achosion o ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos, hefyd wedi lleihau'r rhagdybiaethau. Ystyrir bod yr amcangyfrif diwygiedig yn asesiad mwy cadarn a chytbwys o'r gwerthoedd sy'n debygol o gael eu hadennill.
151. Er bod adennill costau triniaeth y GIG yn fanteisiol oherwydd y gellir eu defnyddio er lles dioddefwyr clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos a'u perthnasau, mae'n gost i'r cyflogwr neu'r cwmni yswiriant sy'n gwneud y taliad digolledu. Felly, effaith net y taliadau i gymdeithas y DU yw sero. Mae'r cyfanswm net sy'n cael ei adennill (£0.9 miliwn) yr un fath ar gyfer opsiynau 2, 3 a 4.
152. Pan fydd cwmni yswiriant yn gwneud taliad, rhagwelir y bydd y gost yn cael ei throsglwyddo i fusnesau ac o bosibl cwsmeriaid ar ffurf premiymau yswiriant uwch. Y dewis arall yw i yswirwyr ysgwyddo costau'r cynllun eu hunain, ond o safbwynt ariannol pur, hwyrach y byddant yn anfodlon/methu cynyddu eu costau a lleihau maint eu helw o bosibl.

Gofal Iliniarol

153. Gall gofal Iliniarol fod yn rhan o'r llwybr gofal ar gyfer unrhyw rai o'r clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos sy'n cael sylw yn y Bil, yn enwedig mesothelioma a chanser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos.

154. Mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru adennill costau'r GIG ar gyfer triniaeth neu wasanaethau eraill i'r graddau eu bod yn cael eu darparu, eu sicrhau, eu comisiynu neu eu hariannu o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006"). Ystyr hyn yn fras yw eu bod yn cael eu darparu neu eu hariannu gan y Billaau ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.
155. Fel arfer, darperir gofal lliniarol gan y GIG yng Nghymru naill ai trwy wasanaethau uniongyrchol mewn ysbytai (gan gynnwys ysbytai cymunedol), nyrsio ardal, gofal hosbis trwy gontractau i ddarparu gwasanaethau gydag elusennau a sefydliadau trydydd sector, neu ofal cartref gan feddygon teulu.
156. Ar wahân i ymweliadau cartref gan feddygon teulu, mae pob elfen arall o ofal lliniarol a nodir uchod naill ai'n cael eu darparu neu eu hariannu'n uniongyrchol gan y Billaau ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, neu gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae gofal lliniarol a ddarperir ar ran y GIG yng Nghymru'n perthyn i "wasanaethau perthnasol y GIG yng Nghymru" fel y'u diffinnir yn adran 3(5) o'r Bil. Mae'r unig fath o ofal lliniarol nad yw wedi'i gynnwys yn ymwneud â'r gofal a ddarperir fel rhan o wasanaethau gofal sylfaenol neu wasanaethau a drefnir yn breifat gan yr unigolyn.
157. Mae'r tariff a amlinellir uchod ar gyfer adennill costau'r GIG yn adlewyrchu'r tariff ICR presennol. Nid yw'r tariff presennol yn cyfrifo pris penodol ar gyfer costau gofal lliniarol. Ystyrir nad yw'r tariff arfaethedig yn darparu'n ddigonol ar gyfer adennill costau gofal lliniarol ar sail y canlynol:
- Dim ond 5 o'r 20 achos o fesothelioma a archwiliwyd oedd yn cynnwys gofal lliniarol. O'r rhain, cafodd 3 ofal hosbis elusennol heb unrhyw gost i'r GIG. Roedd y 2 achos arall yn cynnwys arosiadau claf mewnol mewn ysbytai cymunedol.
 - Mewn achosion lle mae claf angen gofal lliniarol claf mewnol mewn ysbyty, ystyrir hyn yn achos claf mewnol cymwys, ac fe'i cyfrifwyd felly yn y dystysgrif daliadau. Felly, er nad oes unrhyw dariff penodol ar gyfer gofal lliniarol, mae costau'r triniaethau perthnasol wedi'u cyfrif yng nghyfraddau cyffredinol y tariff safonol.
 - Os darperir gofal lliniarol gan feddyg teulu, fel y nodir uchod, mae costau gofal lliniarol ar gyfer mesothelioma yn dod i lai na 3% o gost gyffredinol y driniaeth, felly byddai datblygu a gweinyddu tariff ar wahân ar gyfer y gyfran hon o achosion a chostau'n anghymesur o gostus.
158. Fel y gwelwyd yn yr achosion o fesothelioma, yn aml mae gofal lliniarol yn cael ei ddarparu gan elusennau a sefydliadau trydydd sector. Os felly, o dan y ddeddfwriaeth bresennol ar ddigolledu (yn seiliedig ar y

penderfyniad yn achos Drake v Foster Wheeler (2010) ECCH 2004 (H, H, J Anthony Thornton QC)), gall dioddefwyr clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos neu eu perthnasau geisio adennill costau gofal lliniarol nad ydynt yn cael eu hariannu gan Fwrdd Iechyd Lleol, ond yn hytrach gan roddion elusennol ar ran y darparwr.

Cyflogwyr sector cyhoeddus

159. Mae'r hanes hir o fod mewn cysylltiad â ffibrau Asbestos yn y DU wedi cwmpasu ystod eang o ddiwydiannau a galwedigaethau. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr cyflogedig y sector cyhoeddus mewn gweithgareddau megis gwaith adeiladu neu gynnal a chadw adeiladau.
160. Fe fydd achosion pan mai endid sector cyhoeddus yw'r digolledwr atebol o dan y Bil. Yn yr achosion hyn, byddai costau perthnasol y GIG yn cael eu hadennill gan un rhan o sector cyhoeddus y DU a'u trosglwyddo i'r llall, serch hynny, nid yw hyn yn groes i'r egwyddor sy'n tanategu'r Bil.
161. Nid oes ystadegau hygyrch a pharod ar gael ar gyfer y digolledwr atebol olaf mewn hawliadau clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos. Hyd yn oed os penderfynir mai'r sector cyhoeddus yw'r digolledwr, hwyrach y bydd ganddynt drefniadau yswiriant perthnasol sy'n mynnu mai'r yswiriwr sector preifat sy'n ysgwyddo'r atebolrwydd.
162. Mae gwaith ymchwil wedi'i wneud gyda'r CRU i ganfod nifer yr hawliadau yn y sector cyhoeddus. Cafwyd ystadegau gan y CRU mewn perthynas â hawliadau'r clefyd mesothelioma a gofrestrwyd gyda'r CRU yng Nghymru yn y 5 mlynedd diwethaf. O blith y 242 o achosion a setlwyd yn y cyfnod hwn, roedd 85.1% ohonynt y tu allan i'r sector cyhoeddus. Roedd y 14.9% sy'n weddill yn ymwneud â llywodraeth leol, y GIG, adrannau'r Llywodraeth a diwydiannau cenedlaethol, (12.8% yw'r ffigur heb gynnwys diwydiannau cenedlaethol).

Hawliadau clefyd Mesothelioma ar gyfer Cymru a gofrestrwyd gyda'r CRU, rhwng 1 April 2007 a 31 Mawrth 2012

<u>Categori Digolledu</u>	<u>% o hawliadau a setlwyd</u>
Adran y Llywodraeth	2.5%
Awdurdod Lleol	7.4%
Diwydiant Cenedlaethol	2.1%
GIG	2.9%
An Wladol	85.1%
<u>Cyfanswm</u>	<u>100.0%</u>

Ffynhonnell: Uned Adfer Iawndal (CRU)

Nodiadau: Mae'r dosbarthiad a ddefnyddiodd y CRU i nodi hawliad 'Gwladol' fel a ganlyn. Os yw'r Digolledwr, Cynrychiolydd y Digolledwr neu Ddeiliad y Polisi yn Adran o'r Llywodraeth (canolog a lleol),

yn Awdurdod Lleol, y GIG, yn Ddiwydiant Cenedlaethol neu'n Ddiwydiant Cenedlaethol Posibl, ystyrir yr hawliad yn un Gwladol. Ystyrir yr hawliadau eraill yn 'An-wladol'.

Hwyrach y bydd gan rai Digolledwyr yn y categori Gwladol yswiriant masnachol, fodd bynnag nid yw'r data hyn yn nodi'r enghreifftiau hynny.

Mae'r data'n ymwneud â hawliadau mesothelioma yn unig, a gofrestrwyd gyda'r CRU rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2012, gyda chyfeiriad cartref yr hawliwr yng Nghymru. Mae hawliadau lle cafwyd dyddiad setliad cyfamserol wedi'u rhoi yn y categori 'ar waith' yn hytrach na 'wedi setlo'.

Nid yw'r CRU yn cadw manylion sy'n ymwneud ag achosion lle na lwyddwyd i olrhain parti atebol a lle darparwyd iawndal gwladol. Os mai dim ond iawndal gwladol a ddarparwyd, ni fyddai'r manylion wedi'u cofrestru gyda'r CRU. Dim ond pe bai digolledwr wedi'i ganfod maes o law y byddai'r CRU yn cael ei hysbysu.

163. Mae'r data hyn yn rhoi awgrym o'r atebolrwydd posibl i'r sector cyhoeddus yn yr achosion hyn, ond nid yw'n dangos yr enghreifftiau hynny lle gallai cyrff cyhoeddus fod ag yswiriant sector preifat. Dim ond cofnod o'r parti atebol a geir yma, a gallai fod yn gorgyfrif y gyfran o hawliadau pan mai endid sector cyhoeddus yw'r digolledwr.

164. Mae Cyfreithwyr Thompsons¹⁷ hefyd wedi cyflawni gwaith ymchwil. Mae'r cwmni wedi trin cyfran sylweddol o achosion ar glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos yng Nghymru.

165. Yn ôl Thompsons, roedd 9.7% o'r diffinyddion mewn 165 o hawliadau llwyddiannus yng Nghymru a Lloegr yn perthyn i'r sector cyhoeddus. Ar ôl dadansoddi'r diffinyddion hyn, gwelwyd bod saith yn awdurdod lleol, wyth yn adrannau o'r llywodraeth ac un yn Ymddiriedolaeth y GIG. Roedd un yn gorff sector cyhoeddus yng Nghymru a'r lleill yn sefydliadau sector cyhoeddus y DU, megis y Weinyddiaeth Amddiffyn.

166. Ar sail y wybodaeth hon, byddai'n rhesymol casglu mai 9% - 15% o'r achosion hyn y byddai'r sector cyhoeddus yn atebol amdanynt, sef rhwng £78,000 a £140,000 o'r adenillion blynyddol a amcangyfrifwyd. Yn ôl y dystiolaeth a nodwyd uchod ni awgrymir y bydd unrhyw ailgylchrediad yn digwydd yn gyfan gwbl o fewn y sector cyhoeddus Cymreig, ond y gall fod partion atebol yn perthyn i gyrff y sector cyhoeddus y tu hwnt i Gymru.

Hawliadau clefydau cysylltiedig ag asbestos - tueddiadau'r dyfodol

167. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos newid ym mhroffil dioddefwyr clefydau cysylltiedig ag asbestos. Er bod hanes diwydiannol Cymru'n golygu bod nifer sylweddol o achosion eto i ddod i'r fei mewn diwydiant trwm, erbyn hyn gwelir achosion o blith unigolion yn gweithio ar waith cynnal a chadw a gwaith adeiladu ac ati mewn adeiladau lle'r oedd asbestos yn bresennol. Mae dod i gysylltiad ag asbestos yn y

¹⁷ Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 24 Ebrill 2013 HSC(4)-13-13 - Papur 1 - Llythyr at y Cadeirydd oddi wrth Mick Antoniw AC

galwedigaethau hyn yn cael ei reoli'n well erbyn hyn yn sgil rheoliadau ar gyfer monitro, rheoli a gwaredu asbestos.

168. Mae achosion wedi dechrau ymddangos hefyd o bobl yn dod i gysylltiad ag asbestos mewn amrywiaeth o swyddi wrth weithio mewn adeiladau sy'n cynnwys asbestos. Er enghraifft, mewn ysgolion ac adeiladau cyhoeddus. Mae posibilrwydd y ceir achosion yn y dyfodol yn ymwneud â chysylltiad ag asbestos drwy enghreifftiau o'r fath, ac o ystyried yr holl bobl a gyflogir gan y sector cyhoeddus a'r ystod o adeiladau cyhoeddus a ddarperir, gallai hyn arwain at newid yn y math o achosion sy'n ymwneud â'r sector cyhoeddus fel digolledwr.

169. Serch hynny, ni chafwyd tystiolaeth derfynol ar batrymau atebolrwydd yn y dyfodol ar gyfer hawliadau clefydau cysylltiedig ag asbestos sy'n dangos y gwelir cynnydd yn yr achosion o atebolrwydd i'r sector cyhoeddus yn y dyfodol.

Crynodeb o'r tri opsiwn ar gyfer newid

170. Mae tablau 3 i 5 isod yn nodi gwerth presennol net (NPV) pob opsiwn o gymharu â'r opsiwn 'gwneud dim'. Mae gan bob opsiwn werth presennol net negyddol, sy'n dangos bod costau'r ddeddfwriaeth arfaethedig i gymdeithas yn fwy na'r manteision. Mae'r NPV negyddol yn adlewyrchu costau pontio a chostau gweinyddol y cynllun. Er bod gan bob opsiwn NPV negyddol, mae derbyn egwyddor y 'llygrwr sy'n talu' yn dangos bod gorfodi'r parti atebol i dalu am gostau trin dioddefwyr mesothelioma yn ganlyniad tecach na gorfodi'r GIG i ysgwyddo'r costau.
171. Mae'r gost i fusnesau (y cyflogwyr neu'r cwmnïau yswiriant atebol) a'r fantais (costau triniaeth sy'n cael eu hadennill) yr un fath ar gyfer y tri opsiwn.
172. Er gwaetha'r costau uwch cychwynnol o ddatblygu'r system, mae costau gweinyddol is yr 'Opsiwn CRU' yn golygu mai'r NPV ar gyfer Opsiwn 2 yw'r lleiaf negyddol. Felly, Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffafrir ar gyfer newid sy'n arwain at ganlyniad tecach.

Tabl 3 Opsiwn 2.i - Y CRU yn gweinyddu'r cynllun

£ '000	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Cyfanswm	NPV
Cost Weinyddol							
Costau Pontio							
Datblygu'r System	82.5					82.5	79.7
Hyfforddiant	5.0					5.0	4.8
Costau Rheolaidd							
CRU		7.0	7.0	7.0	7.0	28.0	24.8
Costau Busnes							
Costau Pontio	10.0					10.0	9.7
Costau Rheolaidd		12.0	12.0	12.0	12.0	48.0	42.6
Cost Taliad y GIG		2,008.6	2,008.6	2,008.6	2,008.6	8,034.4	7,128.2
Cyfanswm y Gost	97.5	2,037.6	2,037.6	2,037.6	2,037.6	8,247.9	7,325.3
Mantais - Incwm wedi'i adennill		2,008.6	2,008.6	2,008.6	2,008.6	8,034.4	7,128.2
Mantais Net	-97.5	-29.0	-29.0	-29.0	-29.0	-213.5	-197.1

Nodyn: Mae costau datblygu'r system yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a amlinellwyd yn (83) uchod. Byddai'r gost hon yn gostwng yn sylweddol pe bai angen llai o newidiadau i'r system.

Tabl 4 Opsiwn 2.ii - Llywodraeth Cymru yn gweinyddu'r cynllun

£ '000	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Cyfanswm	NPV
Cost Weinyddol							
<u>Costau Pontio</u>							
Datblygu'r System	5.0					5.0	4.8
Hyfforddiant	2.5					2.5	2.4
<u>Costau Rheolaidd</u>							
BILL		10.0	10.0	10.0	10.0	40.0	35.5
Costau Busnes							
Costau Pontio	10.0					10.0	9.7
Costau Rheolaidd		12.0	12.0	12.0	12.0	48.0	42.6
Cost Taliad y GIG		2,008.6	2,008.6	2,008.6	2,008.6	8,034.4	7,128.2
Cyfanswm y Gost	17.5	2,068.7	2,068.7	2,068.7	2,068.7	8,292.3	7,358.5
Mantais - Incwm wedi'i adennill		2,008.6	2,008.6	2,008.6	2,008.6	8,034.4	7,128.2
Mantais Net	-17.5	-60.1	-60.1	-60.1	-60.1	-258.0	-230.2

Tabl 5 Opsiwn 2.iii - Byrddau Iechyd Lleol yn gweinyddu'r cynllun

£ '000	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Cyfanswm	NPV
Cost Weinyddol							
<u>Costau Pontio</u>							
Datblygu'r System	5.0					5.0	4.8
Hyfforddiant	2.5					2.5	2.4
<u>Costau Rheolaidd</u>							
Costau Busnes							
Costau Pontio	10.0					10.0	9.7
Costau Rheolaidd		12.0	12.0	12.0	12.0	48.0	42.6
Cost Taliad y GIG		2,008.6	2,008.6	2,008.6	2,008.6	8,034.4	7,128.2
Cyfanswm y Gost	17.5	2,062.4	2,062.4	2,062.4	2,062.4	8,267.3	7,336.2
Mantais - Incwm wedi'i adennill		2,008.6	2,008.6	2,008.6	2,008.6	8,034.4	7,128.2
Mantais Net	-17.5	-53.8	-53.8	-53.8	-53.8	-232.9	-208.0

Mae'r ffigurau yn y tablau hyn wedi'u talgrynnu i'r can punt agosaf. Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau yn cyfateb oherwydd y talgrynnu.

173. Mae incwm sy'n cael ei adennill yn berthnasol i achosion o fesothelioma, asbestosis a thewhau plewrol. Fel yr amlinellir ym mharagraff 129, mae'r dystiolaeth i gefnogi cynnwys symiau y mae modd eu hadennill ar gyfer canser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos yn annigonol, felly mae hyn wedi'i hepgor o'r dadansoddiad o incwm a chost. Mae'r incwm hwn yn ymwneud ag incwm a fydd yn cael ei gasglu i'w aiddosbarthu, a bydd yn cael ei gasglu gan sefydliadau sy'n atebol am geisiadau digolledu.

174. Fel y nodir ym mharagraff 166 uchod, mae modd adennill rhwng £78,000 a £140,000 o gyrff sector cyhoeddus, er nad yw hyn yn cael unrhyw effaith ar y cyfrifiadau Gwerth Presennol Net (NPV) ar gyfer y tri opsiwn neu'r opsiwn a ffeirir.

Risgiau a rhagdybiaethau

175. Mae'r gwahaniaeth rhwng NPV Opsiynau 2.i a 2.iii yn gymharol fach (tua £7,000). Mae'r canlyniad mai Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir yn arbennig o sensitif i gynnydd yng nghostau datblygu system y CRU neu ostyngiad yng nghostau gweinyddol blynyddol y BILL.
176. Mae'r cyfrifiad o'r costau trin a fydd yn cael eu hadennill yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau, yn enwedig felly nifer yr achosion, y driniaeth a dderbyniwyd a ffi'r tariff. Mae'r tariff hefyd yn cael ei addasu bob blwyddyn i adlewyrchu pwysau chwyddiant, felly bydd yr union swm sy'n cael ei adennill yn wahanol i'r hyn a nodir uchod. Fodd bynnag, mae'n werth nodi y bydd newid unrhyw un o'r rhagdybiaethau hyn yn cael effaith gyfartal ar bob opsiwn. Felly, nid yw'r opsiwn a ffefrir yn sensitif i newidiadau yn y rhagdybiaethau yn ymwneud â nifer yr achosion a ffioedd y tariff.
177. Fel y nodwyd uchod, dylai cyflogwyr a chwmnïau yswiriant sy'n ymwneud neu a allai ymwneud ag achos o fesothelioma yng Nghymru fod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth a'r prosesau perthnasol. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at gost gyfreithiol a gweinyddol i'r busnesau. Er nad yw cyfanswm y costau hyn yn hysbys, mae ffigur dangosol o £10,000 wedi'i gynnwys yn yr asesiad. Yn yr un modd, rhagdybir y byddai'r costau rheolaidd ychwanegol ar gyfer busnesau yn gymharol fach, ac mae ffigur bach o £100 fesul achos wedi'i ragdybio ynghyd â chost gyfreithiol ychwanegol o £100 mewn 50% o'r achosion. Mae'r un ffigurau ar gyfer busnesau wedi'u cynnwys ym mhob un o'r tri opsiwn, felly tra byddai newid y rhagdybiaethau hyn yn newid lefel y costau busnes, ni fyddai'n effeithio ar y dewis o'r opsiwn a ffefrir.

Effeithiau Cronnol

178. Yn Araith y Frenhines ar 8 Mai 2013, cyhoeddwyd y Bil lawndal Mesothelioma. Nod y bil yw helpu pobl sy'n dioddef o fesothelioma o ganlyniad i ddod i gysylltiad ag asbestos. Mae'n sefydlu cynllun talu ar gyfer y bobl hynny na allant olrhain eu cyflogwr neu gwmni yswiriant eu cyflogwr os mai eu cyflogwr oedd yn gyfrifol am iddynt ddod i gysylltiad ag asbestos. Bydd unrhyw un sy'n cael diagnosis o fesothelioma ar ôl 25 Gorffennaf 2012 yn gallu gwneud hawliad.
179. Bydd y cynllun a gynigir gan y Bil yn cael ei ariannu gan ardoll ar gwmnïau yswiriant, a bydd yn berthnasol i'r DU i gyd. Wrth helpu i ariannu'r cynllun, bydd y diwydiant yswiriant yn wynebu costau ychwanegol.

180. Mae'n bosibl y bydd cyflwyno'r cynllun ar gyfer achosion lle nad oes modd olrhain unrhyw barti atebol yn cael effaith ar nifer yr hawlwyf mesothelioma yng Nghymru.
181. Os bydd y Bil Iawndal Mesothelioma a'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) yn dod yn gyfraith, bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried a ddylid ychwanegu taliad a wneir i ddiodeffwr o dan gynllun arfaethedig y DU i restr o 'daliadau wedi'u heithrio' yn yr Atodlen i'r Bil hwn. Mae yna ddarpariaeth yn y Bil i wneud hyn drwy reoliadau o dan adran 4(2).

8. Asesu'r Gystadleuaeth

182. Defnyddiwyd prawf i hidlo'r gystadleuaeth er mwyn asesu effaith y Bil ar fusnesau, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canlyniad -

Y prawf hidlo	
Cwestiwn	Ateb
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd a effeithir gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni dros 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd a effeithir gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd a effeithir gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn cael effaith fwy sylweddol ar rai busnesau/sefydliadau?	Byddai
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau?	Nac ydy
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes angen i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes angen i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
C8: A yw newid technolegol yn nodwedd o'r sector?	Nac ydy
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na fyddai

183. Dim ond cyflogwyr a chwmnïau yswiriant sy'n atebol am dalu iawndal i ddioddefwyr clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos a gaiff eu heffeithio yn uniongyrchol gan y Bil hwn. Ni fydd y Bil hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y rhan fwyaf o fusnesau yng Nghymru.
184. Nid oes disgwyl i'r ddeddfwriaeth arfaethedig gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd neu gyflenwyr cyfredol.

9. Adolygu Ar ôl Gweithredu

185. Er yn fater i Lywodraeth Cymru, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi, wrth i'r Cynulliad ystyried y Bil, fel sy'n wir am gyflwyno pob maes polisi a rhaglen newydd, y byddai'n briodol cynnal gwerthusiad cyfnodol o effeithiolrwydd a phriodoldeb y cynllun. Credir y byddai'n briodol cynnal yr adolygiad cyntaf 5 mlynedd ar ôl cyflwyno'r cynllun.
186. Bydd gwerthusiad o'r fath yn cynnwys elfen benodol ar wahân i ystyried a yw'r profiad o'r cynllun a gyflwynir gan y Bil hwn yn dangos y gellid defnyddio'r egwyddorion mewn perthynas â chynllun ehangach sy'n cwmpasu clefydau diwydiannol eraill. Yna, byddai angen i unrhyw Lywodraeth ar y pryd fynd i'r afael â'r gwerthusiad a phenderfynu a yw am gyflwyno deddfwriaeth i ddatblygu hyn.

Atodiad A – Nodiadau Esboniadol

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn berthnasol i'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Rhagfyr 2012 ac a ddiwygiwyd yng Ngham 2.
2. Maent wedi'u paratoi er mwyn cynorthwyo darllenydd y Bil a helpu i lywio trafodaeth yn ei gylch. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi'u cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
3. Mae angen darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Nid ydynt yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil, ac nid dyna eu bwriad. Felly, os yw'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad neu sylw ar gyfer darpariaeth neu ran o ddarpariaeth, ni cheir esboniad neu sylw o'r fath.

TROSOLWG O'R BIL

4. Mae'r Bil yn cynnwys 20 adran ac Atodlen. Fel y'u cyflwynir yn adran 1 o'r Bil, mae'r prif ddarpariaethau -
 - a) yn gosod atebolrwydd ar bersonau y mae taliadau digolledu'n cael eu gwneud ganddynt neu ar eu rhan i ddioddefwyr, neu mewn cysylltiad a dioddefwyr clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, i dalu ffioedd mewn cysylltiad a gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ddarperir i'r dioddefwyr o ganlyniad i'r clefydau;
 - b) yn gwneud darpariaeth ar gyfer ardystio swm y ffioedd sydd i'w talu, ar gyfer talu ac adennill y ffioedd, ar gyfer adolygiadau ac apelau ac ynghylch gwybodaeth;
 - c) yn estyn sicrwydd yswiriant personau sy'n atebol i'w hatebolrwydd i dalu'r ffioedd.

SYLWADAU AR ADRANNAU

Adran 2 – Atebolrwydd i dalu ffioedd

5. Mae'r isdran hon yn nodi o dan ba amgylchiadau y gall Gweinidogion Cymru adennill costau'r GIG. Pan fo taliad digolledu'n cael ei wneud i ddioddefwr clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos, neu mewn cysylltiad â dioddefwr clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos, mae'r person y mae'r taliad digolledu'n cael ei wneud ganddo neu ar ei ran yn atebol am dalu i Weinidogion Cymru y ffioedd am wasanaethau perthnasol y GIG a ddarperir i'r dioddefwr o ganlyniad i'r clefyd. Nodir swm y costau ar

dystysgrif a gyflwynir i'r person sy'n atebol am dalu'r costau (gweler adran 3(4)).

Adran 3 – Ystyr y prif dermau

6. Mae'r adran hon yn nodi ystyr y prif dermau a ddefnyddiwyd yn y Bil.
7. Mae isadran (1) a (2) yn diffinio taliad digolledu. Mae'r diffiniad yn un eang ac mae'n cynnwys taliadau a wneir (ar ôl i'r adran ddod i rym) mewn perthynas â chlefyd cysylltiedig ag asbestos, gan neu ar ran y person sydd, neu yr honnir ei fod, yn atebol am y clefyd, megis cyflogwr neu gwmni yswiriant. Yn ogystal â thaliad iawndal terfynol, bydd y diffiniad hefyd yn cynnwys taliad interim neu daliad costau yn unig. Mae isadran (2) yn nodi bod 'taliad digolledu' yn cynnwys nid yn unig taliad mewn arian, ond hefyd taliad ar ffurf gwerth arian a allai gynnwys addasu cartref person.
8. Serch hynny, ni fydd rhai taliadau, sy'n cael eu disgrifio fel taliadau a eithrir, yn cyfrif fel taliadau digolledu; mae manylion pellach ar gael yn adran 4 (gweler isod).
9. Mae isadran (3) yn rhestru'r clefydau sy'n cael eu hystyried yn glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos at ddibenion y Bil. Nid yw'n gwneud gwahaniaeth a yw'r clefyd wedi'i achosi neu ei ddarganfod cyn neu ar ôl i adran 3 ddod i rym.
10. Y ffioedd y mae modd eu hadennill (y cyfeirir atynt fel 'ffioedd priodol') yw'r swm/symiau a nodir mewn tystysgrif a gyflwynir i'r person sy'n gwneud y taliad digolledu mewn cysylltiad â'r dioddefwr (isadran (4)). Nodir y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am dystysgrifau yn adran 5.
11. Mae'r ffioedd y mae modd eu hadennill yn ymwneud â darparu 'gwasanaethau perthnasol GIG Cymru' sydd, fel y nodir yn isadrannau (5) a (6), yn wasanaethau sy'n cael eu comisiynu, eu darparu, eu sicrhau neu eu cyllido o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan BILlau, Ymddiriedolaethau'r GIG a Gweinidogion Cymru (os ydynt yn berthnasol), gan gynnwys gofal cleifion mewnol a chleifion allanol. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaethau'n cynnwys y gwasanaethau a eithrir a welir yn isadran (6), er enghraifft -
 - a) gwasanaethau meddygol sylfaenol (e.e. gofal sy'n cael ei ddarparu gan feddyg teulu), gwasanaethau deintyddol sylfaenol neu wasanaethau offthalmig sylfaenol;
 - b) llety a gwasanaethau i gleifion preifat (gan gynnwys cyfleusterau'r GIG).

12. Mae isadran (7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid ystyr 'gwasanaethau wedi'u heithrio' trwy wneud rheoliadau. Byddai hyn yn galluogi i gostau gwasanaethau eraill gael eu hadennill (er enghraifft, gwasanaethau gofal sylfaenol) o dan y cynllun, os bydd newidiadau i'r patrwm darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn gwneud hynny'n ddymunol.

Adran 4 – Taliadau a eithrir

13. Fel y nodwyd uchod (paragraff 11), nid yw rhai taliadau (sy'n cael eu disgrifio fel taliadau a eithrir) yn cael eu cyfrif fel taliadau digolledu at ddibenion y Bil. Mae'r taliadau hyn yn cael eu nodi yn yr Atodlen i'r Bil, a gyflwynir yn yr adran hon.
14. O dan isadrannau (2) a (3), gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r Atodlen drwy hepgor, addasu neu ychwanegu taliad newydd.

Adran 5 – Ceisiadau am dystysgrifau ac ai

15. Mae adran 5 yn ymdrin â cheisiadau am dystysgrifau.
16. Mae isadran (1) yn galluogi person (er enghraifft, cwmni yswiriant) i wneud cais i Weinidogion Cymru am dystysgrif cyn gwneud taliad digolledu i'r dioddefwr. Ar ôl i daliad digolledu gael ei wneud, mae isadran (2) yn nodi bod yn rhaid i'r digolledwr wneud cais i Weinidogion Cymru am dystysgrif os:
 - a) nad yw wedi derbyn tystysgrif eisoes, neu
 - b) yw unrhyw dystysgrif a anfonwyd yn flaenorol wedi dod i ben,ac nad yw ef neu hi wedi gwneud cais am dystysgrif yn ystod cyfnod a nodir yn y rheoliadau.
17. Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cael cais am dystysgrif, mae'n rhaid iddynt (isadran (3)) drefnu i'r dystysgrif gael ei hanfon "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol". Bydd hyn yn dibynnu ar ofynion y broses o gasglu gwybodaeth gan Ymddiriedolaethau'r GIG a'r BILlau, ac mae'r broses yn amrywio yn ôl amgylchiadau pob dioddefwr.
18. Mae isadran (4) yn trafod faint o amser y gall tystysgrif aros mewn grym. Gall aros mewn grym hyd at ddyddiad penodedig, a all fod yn briodol mewn achosion sy'n cynnwys triniaeth reolaidd; hyd nes y bydd achlysur penodedig yn digwydd - er enghraifft, y claf yn mynd i'r ysbyty eto; neu am gyfnod amhendiant, a fyddai'n briodol er enghraifft lle nad oedd ffioedd yn daladwy yn ôl y dystysgrif, neu dystysgrif lle'r oedd y swm mwyaf y gellid ei adennill (h.y. yr uchafswm a bennwyd gan reoliadau a wnaed o dan adran 6(5)(a)) eisoes wedi'i gyrraedd).

19. Mae isadran (5) yn caniatáu gwneud tystysgrifau newydd. O dan isadran (6), nid oes rhaid cyhoeddi tystysgrif newydd tan y daw'r dystysgrif gyfredol i ben. Pan fo tystysgrif wedi dod i ben, mae isadran (7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi tystysgrif newydd heb i gais newydd gael ei wneud.
20. Mae'n rhaid i bob cais am dystysgrif gael ei wneud yn unol â'r rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan isadran (8).

Adran 6 – Y wybodaeth a geir mewn tystysgrifau

21. Mae Adran 6 yn trafod y wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn tystysgrifau. Mae isadrannau (1) a (2) yn nodi bod yn rhaid i'r dystysgrif bennu swm y ffioedd priodol y mae derbynnydd y dystysgrif yn atebol amdanynt, a bod yn rhaid i'r swm fod yn unol â'r hyn a nodir neu a benderfynir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Gellir gwneud rheoliadau sy'n berthnasol i unrhyw dystysgrif a gyhoeddwyd ar ôl y dyddiad y mae'r rheoliadau yn dod i rym, ac eithrio tystysgrifau lle y gwnaed y taliad digolledu perthnasol cyn y dyddiad hwnnw.
22. O dan isadran (3), os yw'r iawndal a dalwyd i ddiodeffwr y clefyd cysylltiedig ag asbestos wedi'i leihau er mwyn rhoi cyfrif am esgeuluster cyfrannol, bydd y swm a nodir yn y dystysgrif yn cael ei leihau gan yr un gyfran, ac eithrio dan amgylchaidau a ragnodir mewn rheoliadau.
23. Os yw diodeffwr heb dderbyn triniaeth GIG o dan y cynllun (er enghraifft, oherwydd bod y diodeffwr wedi derbyn gwasanaethau meddygol sylfaenol yn unig sydd wedi'u heithrio o dan y Bil), mae'n rhaid i Weinidog Cymru gyhoeddi tystysgrif sy'n dangos nad oes unrhyw daliadau yn ddyledus (isadran (4)).
24. Mae isadran (5) yn nodi materion penodol y gall y rheoliadau fod yn berthnasol iddynt –
- a) uchafswm rhagnodedig ar gyfer cyfanswm ffioedd y GIG sy'n daladwy o dan dystysgrif (isadran (5)(a));
 - b) bod gwahanol symiau i'w pennu ar gyfer gwahanol amgylchiadau – er enghraifft, triniaeth cleifion allanol neu gleifion mewnol, neu wasanaethau ambiwlans (isadran (5)(b));
 - c) darpariaeth ar gyfer achosion pan fydd person yn derbyn triniaeth y GIG mewn mwy nag un man (isadran (5)(c)), er enghraifft, mewn ysbytai gwahanol neu ysbytai mewn ardaloedd BILI gwahanol;
 - d) darpariaeth (a all gynnwys addasiad i'r Bil; gweler isadran (6)) ar gyfer dosrannu'r atebolrwydd i dalu costau triniaeth berthnasol y GIG, pan fydd mwy nag un person yn gwneud y taliad digolledu i'r un diodeffwr neu mewn cysylltiad â'r un diodeffwr (isadran(5)(d));

- e) darpariaeth ar gyfer achosion pan fydd tystysgrif newydd yn cael ei dyroddi neu pan fydd tystysgrif yn cael ei dirymu oherwydd adolygiad neu apêl (isadran (5)(e));
 - f) darpariaeth i Weinidogion Cymru ddyfarnu ar unrhyw fater y mae angen ei ddyfarnu arno o dan y rheoliadau neu o'u herwydd (isadran (5)(f)).
25. Mae isadrannau (6) a (7) yn nodi enghreifftiau pellach o ddarpariaethau y gellir eu gwneud trwy reoliadau.
26. Mae isadran (8) yn darparu bod person sy'n derbyn tystysgrif yn gallu gofyn i Weinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth (fel y'u rhagnodir mewn rheoliadau) ynglŷn â sut y pennwyd y swm a nodir yn y rheoliadau.

Adran 8 – Adennill ffioedd

27. Mae'r adran hon yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i adennill ffioedd lle mae taliad digolledu wedi'i wneud ond nad oes unrhyw gais wedi'i wneud am dystysgrif neu nad oes taliad llawn wedi'i wneud mewn cysylltiad â thystysgrif erbyn y dyddiad dyledus perthnasol. Mae isadran 2 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi tystysgrif newydd neu gopi o'r dystysgrif, fel sy'n briodol, a gorchymyn i dalu ar unwaith. Mae isadrannau (3) i (4) yn pennu'r gweithdrefnau i'w defnyddio i orfodi taliad. Mae isadrannau (5) a (6) yn nodi'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn dangos y gellir adennill swm.

Adran 9 – Adolygu tystysgrifau

28. Mae adran 9 yn galluogi Gweinidogion Cymru i adolygu tystysgrifau.
29. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru adolygu tystysgrif a ddyroddwyd os cânt eu hysbysu am ddyfarniad, setliad neu gytundeb esgeuluster cyfrannol maes o law (isadran (1)). Mae isadran (2) hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoliadau i bennu cyfnodau, achosion ac amgylchiadau y gall Gweinidogion Cymru adolygu unrhyw dystysgrif, naill ai o'u pen a'u pastwn eu hunain, neu os gofynnir iddynt wneud hynny. Wrth adolygu tystysgrif, gall Gweinidogion Cymru gadarnhau, diwygio neu ddiddymu tystysgrif.

Adrannau 10 ac 11 – Apeliadau yn erbyn tystysgrifau a phenderfyniadau hawlildio; Apeliadau i dribiwnlys

30. Mae adran 10 yn nodi y bydd hawl i apelio yn erbyn tystysgrifau ffioedd a phenderfyniadau hawlildio.

31. Mae isadran (1) o adran 10 yn nodi ar ba seiliau y gall digolledwr apelio yn erbyn tystysgrif, ac mae isadran (2) yn nodi nad oes modd i unrhyw apêl gael ei gwneud nes bod yr hawliad y mae'r taliad digolledu yn berthnasol iddo wedi'i benderfynu'n derfynol a'r swm a nodir yn y dystysgrif wedi'i dalu. Fodd bynnag, mae isadrannau (4) a (5) yn galluogi digolledwyr i wneud cais i Weinidogion Cymru am hawlildio gofyniad i dalu ymlaen llaw. Gall Gweinidogion Cymru ganiatáu hawlildiad o'r fath dim ond os byddai gofyn am daliad ymlaen llaw yn achosi caledi ariannol eithriadol.
32. Mae isadran (7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn ag amseroedd, dulliau a gweithdrefnau apelio a wneir iddynt yn erbyn tystysgrifau a phenderfyniadau hawlildio. Gall rheoliadau hefyd ganiatáu i apêl yn erbyn tystysgrif gael ei thrin fel adolygiad.
33. Mae Adran 11 yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru atgyfeirio apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf i'w hystyried ac ar gyfer penderfyniad. Mae Isadran (2) yn gofyn i'r Tribiwnlys ystyried penderfyniadau perthnasol y llys, ac mae isadrannau (3) a (5) yn nodi dewisiadau'r Tribiwnlys wrth benderfynu ar apeliadau. Mae Isadran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu penderfyniad y Tribiwnlys.

Adran 12 – Darparu gwybodaeth

34. Mae'r system ar gyfer adennill ffioedd y GIG yn dibynnu ar drosglwyddo gwybodaeth gan y partïon gwahanol sy'n ymwneud â'r digwyddiadau, o nodi'r clefyd i dalu iawndal. Mae isadran (1) yn nodi'r personau sy'n gorfod darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru. Bydd natur y wybodaeth honno, a sut a phryd y dylid ei darparu yn unol A'r hyn a nodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae isadran (3) yn ei gwneud yn glir y gall y wybodaeth ofynnol gynnwys gwybodaeth am wasanaethau GIG Cymru a ddarparwyd ar gyfer dioddefwr clefyd sy'n gysylltiedig ag asbestos i drin y clefyd hwnnw.

Adran 13 – Defnyddio gwybodaeth

35. Mae'r adran hon yn caniatáu i wybodaeth a gedwir at ddibenion Deddf Nawdd Cymdeithasol (Adennill Budd-daliadau) 1997 agel ei defnyddio ar gyfer y Bil hwn.

Adran 14 – Rheoliadau sy'n llywodraethu cyfandaliadau, taliadau cyfnodol ac ati

36. Mae atebolrwydd i dalu ffioedd y GIG yn deillio o unrhyw daliad digolledu, p'un ai a yw'n daliad senogl, yn daliad interim neu'n ail-daliad digolledu neu'n daliad digolledu dilynol. Mae adran 14 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â thrin

cyfandaliadau, taliadau cyfnodol, taliadau interim y mae llys yn gorchymyn iddynt gael eu ad-dalu a thaliadau i mewn i lys at ddibenion y Bil.

Mae isadran (2) yn rhoi enghreifftiau o'r ddarpariaeth a geir yn y rheoliadau mewn perthynas â chyfandaliadau

37. O dan isadran (3), gall rheoliadau gael eu gwneud i ymdrin â sefyllfa benodol taliadau i mewn i lys a'r amgylchiadau lle mae modd ystyried taliadau o'r fath - sy'n cael eu gwneud i'r llys yn hytrach nag i'r dioddefwr - fel taliadau digolledu. Mae'n caniatáu i reoliadau addasu'r defnydd o'r cynllun mewn perthynas ag achosion o'r fath.

Adran 15 – Atebolrwydd yswirwyr

38. Mae Adran 15 yn darparu, os yw taliad digolledu sy'n cael ei wneud a bod yr atebolrwydd cysylltiedig ag asbestos pethnasol wedi'i gwmpasu (i unrhyw raddau) gan bolisi yswiriant, y bydd y polisi hwnnw hefyd yn cwmpasu unrhyw atebolrwydd i dalu ffioedd perthnasol mewn perthynas ag unrhyw wasanaethau'r GIG a ddarparwyd ar gyfer y dioddefwr o ganlyniad i'r clefyd. Ni all yr atebolrwydd ychwanegol hwn gael ei eithrio na'i gyfyngu. Mae isadran (4) hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a all ragnodi'r amgylchiadau lle mae modd cyfyngu ar faint yr atebolrwydd hwnnw. Mae isadran (5) yn nodi bod yr adran hon yn berthnasol i bolisiau yswiriant a ddyroddir cyn, ac ar ôl, i'r adran hon ddod i rym.

Adran 16 – Defnyddio'r arian a ad-delir

39. Mae Adran 16 (1) yn mynnu bod Gweinidogion Cymru, wrth ddyrannu'r symiau a ad-delir o dan y Ddeddf, yn ystyried dyrannu swm cyfwerth at ddiben ymchwilio i glefydau cysylltiedig ag asbestos, ac er mwyn triny clefydau neu ddarparu gwasanaethau eraill.
40. Mae isadran (2) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar y ffordd mae symiau sy'n gyfwerth â'r rhai a ad-dalwyd o dan y cynllun wedi'u dosbarthu.

Adran 17 – Cymhwyso i'r Goron

41. Mae'r adran hon yn darparu y bydd y Bil yn berthnasol i'r Goron (h.y. y Frenhines ac Adrannau'r Llywodraeth).

Adran 18 – Gorchmynion a rheoliadau

42. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynglŷn â phwerau yn y Bil sy'n caniatáu i is-ddeddfwriaeth ar ffurf gorchmynion neu reoliadau gael ei gwneud. Defnyddir offeryn statudol i wneud deddfwriaeth o'r fath. Darpariaeth dechnegol yw isadran (2) sy'n sicrhau bod y pwerau yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth o'r fath yn ddigon eang i

alluogi i'r ddeddfwriaeth ddarparu ar gyfer y sefyllfaoedd y gall ddisgwyl dod ar eu traws. Mae isadran (5) yn darparu y bydd yn rhaid i reoliadau sy'n deillio o adrannau 3(7) a 4(2) a'r set gyntaf o reoliadau o dan adrannau 6(2) a 10(7) gael eu cymeradwyo ar ffurf drafft gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y gellir eu gwneud. Mae isadran (6) yn darparu na fydd rhaid i'r holl reoliadau eraill a wneir o dan y Bil gael eu cymeradwyo ar ffurf drafft, ond gellir eu diddymu trwy benderfyniad y Cynulliad ar ôl iddynt gael eu gwneud.

Adran 19 – Dehongli

43. Mae'r adran hon yn nodi ystyr y termau amrywiol a ddefnyddir yn y Bil.

Atodlen 1 – Taliadau a eithrir

44. Mae'r Atodlen, a gyflwynwyd gan adran 4 y Bil, yn rhestru nifer o daliadau nad ydynt i'w cyfrif fel 'taliadau digolledu' at ddibenion y Bil. Mae'r rhain yn cynnwys –

- a) Taliadau a wnaed o dan Ddeddf Niwmoconiosis ac ati (Digolledu Gweithwyr) 1979;
- b) Rhan 4 o Ddeddf Cynhaliath Plant a Thaliadau Eraill 2008. Cynlluniau'r Llywodraeth yw'r rhain lle mae'r wladwriaeth yn darparu iawndal i ddiodefwr rhai clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, neu eu dibynyddion, mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft, os nad yw'r cyflogwr perthnasol yn dal mewn busnes.
- c) Taliadau a wneir i'r diodefwr neu ar ei gyfer o dan adran 130 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 (gorchmynion iawndal yn erbyn personau sydd wedi eu colfarnu). Os yw llys yn dyfarnu person yn euog o drosedd ac yn gwneud gorchymyn iawndal i'w ddiodefwr, y person a gafwyd yn euog sy'n talu'r iawndal yn hytrach na chyflogwr neu yswiriwr.
- d) Taliadau disgrisiwn a wneir o eiddo a ddelir mewn ymddiriedolaeth lle na fydd y person sy'n gwneud y taliad digolledu i'r diodefwr wedi darparu mwy na 50 y cant o'r cyfalaf a gyfrannwyd i'r ymddiriedolaeth, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- e) Taliadau a wneir gan ymddiriedolaethau wedi'u pennu mewn rheoliadau. Gellid defnyddio'r pŵer hwn er enghraifft i bennu ymddiriedolaethau, er enghraifft y rhai a sefydlir i ddarparu iawndal i ddiodefwr clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos pan fo cyn-

gyflogwyr wedi rhoi'r gorau i fasnachu, a defnyddir gweddill yr asedau i ddarparu taliadau digolledu.

- f) Taliad a wneir i gyflawni contract yswiriant rhwng y dioddefwr a'i yswiriwr, (er enghraifft, yswiriant iechyd personol).

- g) Unrhyw daliad i'r graddau ei fod wedi'i wneud o dan Ddeddf Damweiniau Angheuol 1976, neu mewn amgylchiadau pe bai achos cyfreithiol wedi'i gyflwyno, y byddai wedi'i gyflwyno o dan y Ddeddf honno. O dan y Ddeddf honno, gall ystâd yr ymadawedig gyflwyno hawliad am iawndal yn sgil damwain angheuol ar ran ei deulu a'i ddibynyddion ariannol. Gall hawlwr penodol dderbyn taliad profedigaeth sefydlog, ac mae hawl gan ddibynyddion sydd wedi dioddef yn ariannol yn sgil y farwolaeth ac sy'n rhesymol debygol o ddioddef yn ariannol yn y dyfodol, i geisio iawndal sy'n adlewyrchu colli'r cymorth ariannol hwnnw neu werth gwasanaethau a gollir.

Atodiad B - Ymgylgoreion

Ymwybyddiaeth Asbestos a Chefnogaeth Cymru
Fforwm Grwpiau Cymorth i Ddiodefwyr Asbestos y DU
ASLEF
Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI)
Cymdeithas Cyfreithwyr Niwed Personol Cymru (APIL)
Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint (Cymru)
Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)
Clwb Busnes Caerdydd
Clydeside Action on Asbestos
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru
Cydffederasiwn Cynghorau Iechyd Cymuned
Undeb y Frigâd Dân (FBU)
Fforwm Cyfreithwyr Yswiriant
GMB
GMB Rhanbarth y De-orllewin
Sefydliad Cyfarwyddwyr Cymru
Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru
Macmillan Cymru
Marie Curie
Mesothelioma UK
NASUWT Cymru
Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru
NUT Cymru
Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol Cymru
Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth (RMT)
Tenovus
TUC Cymru
Undeb Adeiladu, Crefftau Perthynol a Thechnegwyr (UCATT)
UNSAIN Cymru
Unite Cymru